OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif 293 (Cy. 59)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mawrth 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. 293 (W. 59)

# AGRICULTURE, WALES

## The Agricultural Wages (Wales) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 March 2025* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *11 March 2025* |
| *Coming into force* | *1 April 2025* |

**£13.57**

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 Rhif 293 (Cy. 59)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025

# 2025 No. 293 (W. 59)

# AGRICULTURE, WALES

## The Agricultural Wages (Wales) Order 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yn ddarostyngedig i rai newidiadau ac un ddarpariaeth drosiannol, mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi eu nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn (erthygl 3) ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol (erthyglau 5 i 10).

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf y mae rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (erthygl 11). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer lwfans gwrthbwyso llety a all gael ei dynnu oddi ar dâl gweithiwr amaethyddol (erthygl 14). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd ar gyfer lwfans cŵn, lwfans ar alwad, lwfans gwaith nos a grantiau geni a mabwysiadu nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol (erthygl 15).

Mae Rhan 4 yn darparu bod gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan yr amgylchiadau sydd wedi eu pennu (erthyglau 17 i 20). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch cyfrifo faint o dâl salwch amaethyddol y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael (erthygl 21). Mae taliad tâl salwch statudol i gyfrif tuag at hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol (erthygl 22).

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order revokes and replaces, subject to some changes and a transitional provision, the Agricultural Wages (Wales) Order 2024.

Part 2 of the Order provides that agricultural workers are to be employed subject to the terms and conditions set out in Parts 2 to 5 of the Order (article 3) and specifies the different grades and categories of agricultural worker (articles 5 to 10).

Part 3 makes provision about the minimum rates of remuneration that must be paid to agricultural workers (article 11). Provision is made for accommodation offset allowance which may be deducted from an agricultural worker's remuneration (article 14). Provision is also made for dog allowance, on-call allowance, night work allowance and birth and adoption grants which do not form part of an agricultural worker's remuneration (article 15).

Part 4 provides that an agricultural worker is entitled to agricultural sick pay in the circumstances specified (articles 17 to 20). Provision is made about calculating the amount of agricultural sick pay that an agricultural worker is entitled to (article 21). A payment of statutory sick pay is to count towards an agricultural worker's entitlement to agricultural sick pay (article 22).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael amser i ffwrdd. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael seibiannau gorffwys (erthygl 27), gorffwys dyddiol (erthygl 28) a chyfnod gorffwys wythnosol (erthygl 29). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd sy'n pennu blwyddyn gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol ac ynghylch hawl y gweithiwr amaethyddol i gael gwyliau blynyddol a thâl gwyliau ac ynghylch taliad yn lle gwyliau blynyddol (erthyglau 30 i 37). Mae darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth yn cael ei gwneud yn erthyglau 40 i 42 ac i wneud cais am absenoldeb di-dâl yn erthygl 43.

Part 5 makes provision about an agricultural worker's entitlement to time off. Provision is made about an agricultural worker's entitlement to rest breaks (article 27), daily rest (article 28) and weekly rest period (article 29). Provision is also made specifying the agricultural worker's annual leave year and about the agricultural worker's entitlement to annual leave, holiday pay and about payment in lieu of annual leave (articles 30 to 37). Provision about an agricultural worker's entitlement to be paid bereavement leave is made in articles 40 to 42 and to request unpaid leave in article 43.

Mae Rhan 6 yn cynnwys dirymiad a darpariaeth drosiannol (erthygl 44).

Part 6 contains a revocation and a transitional provision (article 44).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif 293 (Cy. 59)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Mawrth 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2025* |

CYNNWYS


RHAN 1
Rhagarweiniol

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli

RHAN 2
Gweithwyr amaethyddol

3. Telerau ac amodau cyflogaeth
4. Graddau a chategorïau gweithiwr amaethyddol
5. Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A
6. Gweithiwr Amaethyddol Gradd B
7. Gweithiwr Amaethyddol Uwch Gradd C
8. Uwch-weithiwr Amaethyddol Gradd D
9. Rheolwr Amaethyddol Gradd E
10. Prentisiaid

RHAN 3
Yr isafswm cyflog amaethyddol

11. Cyfraddau tâl isaf
12. Cyfraddau tâl isaf am oramser
13. Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn


WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. 293 (W. 59)

# AGRICULTURE, WALES

## The Agricultural Wages (Wales) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 March 2025* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *11 March 2025* |
| *Coming into force* | *1 April 2025* |

CONTENTS


PART 1
Preliminary

1. Title and commencement
2. Interpretation

PART 2
Agricultural workers

3. Terms and conditions of employment
4. Grades and categories of agricultural worker
5. Agricultural Development Worker Grade A
6. Agricultural Worker Grade B
7. Advanced Agricultural Worker Grade C
8. Senior Agricultural Worker Grade D
9. Agricultural Manager Grade E
10. Apprentices

PART 3
Agricultural minimum wage

11. Minimum rates of pay
12. Minimum rates of pay for overtime
13. Minimum rates of pay for output work

14. Lwfans gwrthbwyso llety
15. Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol
16. Costau hyfforddi

RHAN 4
Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

17. Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol
18. Amodau cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol
19. Cyfnodau absenoldeb salwch
20. Cyfyngiadau ar yr hawl i dâl salwch amaethyddol
21. Pennu swm tâl salwch amaethyddol
22. Tâl salwch amaethyddol i gymryd tâl salwch statudol i ystyriaeth
23. Talu tâl salwch amaethyddol
24. Cyflogaeth yn dod i ben yn ystod absenoldeb salwch
25. Gordalu tâl salwch amaethyddol
26. Iawndal a adenillir yn sgil colli enillion

RHAN 5
Yr hawl i gael amser i ffwrdd

27. Seibiannau gorffwys
28. Gorffwys dyddiol
29. Cyfnod gorffwys wythnosol
30. Y flwyddyn gwyliau blynyddol
31. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio penodedig a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau
32. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio neu oriau amrywiol a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau blynyddol
33. Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a gyflogir am ran o'r flwyddyn gwyliau
34. Amseru gwyliau blynyddol
35. Tâl gwyliau
36. Gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc
37. Taliad yn lle gwyliau blynyddol
38. Talu tâl gwyliau wrth derfynu cyflogaeth
39. Adennill tâl gwyliau
40. Absenoldeb oherwydd profedigaeth
41. Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth

14. Accommodation offset allowance
15. Payments which do not form part of an agricultural worker's remuneration
16. Training costs

PART 4
Entitlement to agricultural sick pay

17. Entitlement to agricultural sick pay
18. Qualifying conditions for agricultural sick pay
19. Periods of sickness absence
20. Limitations on entitlement to agricultural sick pay
21. Determining the amount of agricultural sick pay
22. Agricultural sick pay to take account of statutory sick pay
23. Payment of agricultural sick pay
24. Employment ending during sickness absence
25. Overpayments of agricultural sick pay
26. Damages recovered for loss of earnings

PART 5
Entitlement to time off

27. Rest breaks
28. Daily rest
29. Weekly rest period
30. Annual leave year
31. Amount of annual leave for agricultural workers with fixed working days employed throughout the annual leave year
32. Amount of annual leave for agricultural workers with variable working days or hours employed throughout the annual leave year
33. Amount of annual leave for agricultural workers employed for part of the leave year
34. Timing of annual leave
35. Holiday pay
36. Public holidays and bank holidays
37. Payment in lieu of annual leave
38. Payment of holiday pay on termination of employment
39. Recovery of holiday pay
40. Bereavement leave
41. Determining the amount of bereavement leave

42. Tâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol
43. Absenoldeb di-dâl

RHAN 6
Dirymu a darpariaeth drosiannol

44. Dirymu a darpariaeth drosiannol

ATODLEN 1 — CYFRADDAU TÂL ISAF
ATODLEN 2 — HAWLIAU GWYLIAU BLYNYDDOL
ATODLEN 3 — TALIAD YN LLE GWYLIAU BLYNYDDOL
ATODLEN 4 — CYMWYSTERAU CYFATEBOL Y TU ALLAN I GYMRU

Mae Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru, yn unol â'i swyddogaethau o dan erthygl 3(2)(b) o Orchymyn Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru (Sefydlu) 2016(**1**), wedi llunio gorchymyn cyflogau amaethyddol ar ffurf ddrafft, wedi ymgynghori ar y gorchymyn ac wedi ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ganddynt.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r gorchymyn cyflogau amaethyddol drafft yn unol ag adran 4(1)(a) o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 3, 4(1) a 17 o Ddeddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

(**1**) O.S. 2016/255 (Cy. 89).
(**2**) 2014 dccc 6.

42. Agricultural bereavement leave pay
43. Unpaid leave

PART 6
Revocation and transitional provision

44. Revocation and transitional provision

SCHEDULE 1 — MINIMUM RATES OF PAY
SCHEDULE 2 — ANNUAL LEAVE ENTITLEMENT
SCHEDULE 3 — PAYMENT IN LIEU OF ANNUAL LEAVE
SCHEDULE 4 — EQUIVALENT QUALIFICATIONS OUTSIDE WALES

The Agricultural Advisory Panel for Wales, in accordance with their functions under article 3(2)(b) of the Agricultural Advisory Panel for Wales (Establishment) Order 2016(**1**), have prepared an agricultural wages order in draft, consulted on the order and submitted it to the Welsh Ministers for approval.

The Welsh Ministers have approved the draft agricultural wages order in accordance with section 4(1)(a) of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014(**2**).

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 3, 4(1) and 17 of the Agricultural Sector (Wales) Act 2014, make the following Order.

(**1**) S.I. 2016/255 (W. 89).
(**2**) 2014 anaw 6.

# RHAN 1

## Rhagarweiniol

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2025.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "absenoldeb salwch" ("*sickness absence*") yw absenoldeb gweithiwr amaethyddol o'r gwaith oherwydd analluedd yn sgil—

(a) unrhyw salwch a ddioddefir gan y gweithiwr amaethyddol,

(b) salwch neu analluedd a achosir am fod y gweithiwr amaethyddol yn feichiog neu a ddioddefir o ganlyniad i eni plentyn,

(c) anaf sy'n digwydd i'r gweithiwr amaethyddol yn ei le gwaith,

(d) anaf sy'n digwydd i'r gweithiwr amaethyddol wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'w le gwaith,

(e) amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn ymadfer ar ôl llawdriniaeth a achoswyd gan salwch, neu

(f) amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn ymadfer ar ôl llawdriniaeth o ganlyniad i anaf a ddioddefwyd yn ei le gwaith neu anaf a ddioddefwyd wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'w le gwaith,

ond nid yw'n cynnwys unrhyw anaf a ddioddefir gan y gweithiwr amaethyddol pan na fo yn ei le gwaith nac unrhyw anaf a ddioddefir pan na fo'r gweithiwr amaethyddol yn teithio yn ôl ac ymlaen i'w le gwaith;

mae "amaethyddiaeth" ("*agriculture*") yn cynnwys—

(a) ffermio gwartheg godro;

(b) cynhyrchu unrhyw gynnyrch defnyddiadwy at ddibenion masnach neu fusnes neu unrhyw fenter arall (pa un a wneir hynny i wneud elw ai peidio);

(c) defnyddio tir fel tir pori, gweirglodd neu ddoldir;

(d) defnyddio tir ar gyfer perllannau, tir helyg gwiail neu goetir;

(e) defnyddio tir ar gyfer gerddi marchnad neu blanhigfeydd;

# PART 1

## Preliminary

**Title and coming into force**

**1.** The title of this Order is the Agricultural Wages (Wales) Order 2025 and it comes into force on 1 April 2025.

**Interpretation**

**2.**—(1) In this Order—

"agricultural worker" ("*gweithiwr amaethyddol*") means a person employed in agriculture in Wales, whether or not the whole of the work undertaken by virtue of that employment is undertaken in Wales;

"agriculture" ("*amaethyddiaeth*") includes—

(a) dairy farming;

(b) the production of any consumable produce for the purposes of a trade or business or any other undertaking (whether carried on for profit or not);

(c) the use of land as grazing, meadow or pasture land;

(d) the use of land for orchards, osier land or woodland;

(e) the use of land for market gardens or nursery grounds;

"apprenticeship framework" ("*fframwaith prentisiaethau*") means any of the current Apprenticeship Frameworks for the agricultural sector in Wales issued by the Welsh Government and published by Lantra(**1**) on or before the date that this Order comes into force, or previous versions of the Apprenticeship Frameworks for the agricultural sector in Wales published by Lantra;

"basic hours" ("*oriau sylfaenol*") means a maximum of 39 hours of work per week, or other hours of work agreed (subject to that maximum), under the agricultural worker's contract or apprenticeship, excluding overtime and guaranteed overtime, worked in accordance with either an agricultural worker's contract or apprenticeship;

(**1**) https://acwcerts.co.uk/web/frameworks-library.

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw unigolion sydd wedi eu cymryd ymlaen fel cyflogeion, gweithwyr, gweithwyr asiantaeth a gweithwyr a gyflogir gan gangfeistri;

ystyr "cynnyrch defnyddiadwy" ("*consumable produce*") yw cynnyrch a dyfir i'w fwyta ac i'w yfed neu i'w ddefnyddio fel arall ar ôl iddo adael y tir lle cafodd ei dyfu;

ystyr "diwrnodau cymwys" ("*qualifying days*") (ac eithrio yn erthygl 21 lle y mae diffiniad gwahanol yn gymwys) yw diwrnodau pan fyddai'n ofynnol fel arfer i'r gweithiwr amaethyddol fod ar gael i weithio gan gynnwys diwrnodau pan oedd y gweithiwr amaethyddol—

(a) yn cymryd gwyliau blynyddol,

(b) yn cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth,

(c) yn cymryd absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhiant a rennir neu fabwysiadu statudol, neu

(d) ar gyfnod o absenoldeb salwch;

ystyr "fframwaith prentisiaethau" ("*apprenticeship framework*") yw unrhyw un neu ragor o'r Fframweithiau Prentisiaethau cyfredol ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a ddyroddwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd gan Lantra(**1**) ar y dyddiad neu cyn y dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym, neu fersiynau blaenorol o'r Fframweithiau Prentisiaethau ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra;

ystyr "goramser" ("*overtime*") yw—

(a) mewn perthynas â gweithiwr amaethyddol a ddechreuodd ei gyflogaeth cyn 1 Hydref 2006, amser nad yw'n oramser gwarantedig y mae'r gweithiwr amaethyddol yn ei weithio—

(i) yn fwy nag oriau gwaith sylfaenol, neu

(ii) arŵyl gyhoeddus, neu

(iii) ar ddydd Sul, neu

(iv) mewn unrhyw gyfnod sy'n cychwyn ar ddydd Sul ac yn parhau hyd y dydd Llun canlynol hyd at yr amser y byddai'r gweithiwr amaethyddol hwnnw yn cychwyn ei ddiwrnod gwaith fel arfer;

"child" ("*plentyn*") has the meaning given in section 80EA of the Employment Rights Act 1996(**1**). A child is the child of an agricultural worker if the agricultural worker satisfies the conditions specified in regulation 4(2) of the Parental Bereavement Leave Regulations 2020(**2**);

"consumable produce" ("*cynnyrch defnyddiadwy*") means produce grown for consumption or for other use after severance from the land on which it is grown;

"employment" ("*cyflogaeth*") means individuals engaged as employees, workers, agency workers and workers employed by gangmasters;

"guaranteed overtime" ("*goramser gwarantedig*") means overtime which an agricultural worker is obliged to work either under their contract or their apprenticeship and in respect of which the agricultural worker's employer guarantees payment, whether or not there is work for the agricultural worker to do;

"hours" ("*oriau*") includes a fraction of an hour;

"irregular hours worker" (*"gweithiwr oriau afreolaidd"*) has the meaning given in regulation 15F of the Working Time Regulations 1998(**3**);

"Lantra" means the company, or any successor organisation, whatever its title, whose registered office address is Lantra House, Stoneleigh Park, Warwickshire, CV8 2LG and whose company registration number is 02823181 in England and Wales;

"overtime" ("*goramser*") means—

(a) in relation to an agricultural worker who began their employment prior to 1 October 2006, time that is not guaranteed overtime worked by the agricultural worker—

(i) in excess of basic hours of work, or

(ii) on a public holiday, or

(iii) on a Sunday, or

(iv) in any period commencing on a Sunday and continuing to the following Monday up until the time that agricultural worker would normally start their working day;

(**1**) https://acwcerts.co.uk/web/frameworks-library.

(**1**) 1996 c. 18. Section 80EA was inserted by paragraph 2 of Part 1 of the Schedule to the Parental Bereavement (Leave and Pay) Act 2018 (c. 24).

(**2**) S.I. 2020/249.

(**3**) S.I. 1998/1833. Regulation 15F was inserted by regulation 3(7) of the Employment Rights (Amendment, Revocation and Transitional Provision) Regulations 2023 (S.I. 2023/1426).

(b) mewn perthynas â phob gweithiwr amaethyddol arall a ddechreuodd ei gyflogaeth ar neu ar ôl 1 Hydref 2006, amser nad yw'n oramser gwarantedig y mae'r gweithiwr amaethyddol yn ei weithio—

(i) yn ychwanegol at oriau gwaith sylfaenol, neu

(ii) ar ŵyl gyhoeddus;

ystyr "goramser gwarantedig" ("*guaranteed overtime*") yw goramser y mae'n ofynnol i weithiwr amaethyddol ei weithio o dan naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth ac y mae cyflogwr y gweithiwr amaethyddol yn gwarantu taliad ar ei gyfer, pa un a oes gwaith i'r gweithiwr amaethyddol ei wneud ai peidio;

ystyr "gwaith" ("*work*") yw—

(a) unrhyw gyfnod pryd y mae'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio, ar gael i'w gyflogwr ac yn cyflawni ei weithgareddau neu ei ddyletswyddau;

(b) unrhyw gyfnod pryd y mae'r gweithiwr amaethyddol yn cael hyfforddiant perthnasol;

(c) unrhyw gyfnod a dreulir gan weithiwr amaethyddol yn teithio at ddibenion ei gyflogaeth ond nad yw'n cynnwys amser a dreulir yn teithio rhwng ei gartref a'i le gwaith;

(d) unrhyw gyfnod y mae gweithiwr amaethyddol yn cael ei rwystro rhag cyflawni gweithgareddau neu ddyletswyddau yn unol â'i gontract neu ei brentisiaeth oherwydd tywydd drwg;

ystyr "gweithiwr amaethyddol" ("*agricultural worker*") yw person a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru, pa un a yw'r holl waith yr ymgymerir ag ef yn rhinwedd y gyflogaeth honno yn cael ei wneud yng Nghymru ai peidio;

mae i "gweithiwr oriau afreolaidd" yr ystyr a roddir i "irregular hours worker" yn rheoliad 15F o Reoliadau Amser Gwaith 1998(**1**);

mae i "gweithiwr rhan o'r flwyddyn" yr ystyr a roddir i "part-year worker" gan reoliad 15F o Reoliadau Amser Gwaith 1998;

ystyr "Lantra" yw'r cwmni, neu unrhyw sefydliad sy'n ei olynu, beth bynnag fo'i enw, sydd â'i gyfeiriad swyddfa gofrestredig yn Lantra House, Stoneleigh Park, Swydd Warwick, CV8 2LG ac sydd â'r rhif cofrestru cwmni 02823181 yng Nghymru a Lloegr;

(b) in relation to all other agricultural workers who began their employment on or after 1 October 2006, time that is not guaranteed overtime worked by the agricultural worker—

(i) in addition to basic hours of work, or

(ii) on a public holiday;

"part-year worker" (*"gweithiwr rhan o'r flwyddyn"*) has the meaning given by regulation 15F of the Working Time Regulations 1998;

"qualifying days" ("*diwrnodau cymwys*") means (other than in article 21 where a different definition applies) days on which the agricultural worker would normally be required to be available for work including days on which the agricultural worker—

(a) was taking annual leave,

(b) was taking bereavement leave,

(c) was taking statutory maternity, paternity, shared parental or adoption leave, or

(d) was on a period of sickness absence;

"sickness absence" ("*absenoldeb salwch*") means the absence of an agricultural worker from work due to incapacity by reason of—

(a) any illness suffered by the agricultural worker,

(b) illness or incapacity caused by the agricultural worker's pregnancy or suffered as a result of childbirth,

(c) an injury that occurs to the agricultural worker at the agricultural worker's place of work,

(d) an injury that occurs to the agricultural worker when travelling to or from their place of work,

(e) time spent by the agricultural worker recovering from an operation caused by an illness, or

(f) time spent by the agricultural worker recovering from an operation in consequence of an injury suffered at their place of work or an injury suffered whilst travelling to or from their place of work,

but does not include any injury suffered by the agricultural worker when not at their place of work nor any injury suffered when the agricultural worker is not travelling to or from their place of work;

(**1**) O.S. 1998/1833. Mewnosodwyd rheoliad 15F gan reoliad 3(7) o Reoliadau Hawliau Cyflogaeth (Diwygio, Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) 2023 (O.S. 2023/1426).

mae "oriau" ("*hours*") yn cynnwys ffracsiwn o awr;

ystyr "oriau sylfaenol" ("*basic hours*") yw uchafswm o 39 o oriau gwaith yr wythnos, neu oriau gwaith eraill y cytunir arnynt (yn ddarostyngedig i'r uchafswm hwnnw), o dan gontract y gweithiwr amaethyddol neu brentisiaeth y gweithiwr amaethyddol, ac eithrio goramser a goramser gwarantedig, a weithir yn unol â naill ai contract gweithiwr amaethyddol neu brentisiaeth gweithiwr amaethyddol;

mae i "plentyn" yr ystyr a roddir i "child" yn adran 80EA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**1**). Mae plentyn yn blentyn gweithiwr amaethyddol os yw'r gweithiwr amaethyddol yn bodloni'r amodau a bennir yn rheoliad 4(2) o Reoliadau Absenoldeb Profedigaeth Rhiant 2020(**2**);

ystyr "teithio" ("*travelling*") yw siwrnai drwy gyfrwng dull teithio neu siwrnai ar droed yn cynnwys—

(a) aros wrth fan ymadael i gychwyn siwrnai drwy gyfrwng dull teithio,

(b) aros wrth fan ymadael i siwrnai ailgychwyn naill ai drwy gyfrwng yr un dull teithio neu drwy gyfrwng un arall, ac eithrio unrhyw amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn cymryd seibiant gorffwys, ac

(c) aros ar ddiwedd siwrnai i gyflawni dyletswyddau, neu i dderbyn hyfforddiant, ac eithrio unrhyw amser a dreulir gan y gweithiwr amaethyddol yn cymryd seibiant gorffwys.

(2) Yn yr erthygl hon mae'r cyfeiriad at weithwyr amaethyddol a ddechreuodd eu cyflogaeth cyn 1 Hydref 2006 yn cynnwys gweithwyr amaethyddol—

(a) y mae telerau eu contract wedi bod yn destun unrhyw amrywiad ers hynny; neu

(b) sydd wedi eu cyflogi gan gyflogwr newydd ers hynny yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006(**3**).

"travelling" ("*teithio*") means a journey by a mode of transport or a journey on foot and includes—

(a) waiting at a place of departure to begin a journey by a mode of transport,

(b) waiting at a place of departure for a journey to re-commence either by the same or another mode of transport, except for any time the agricultural worker spends taking a rest break, and

(c) waiting at the end of a journey for the purpose of carrying out duties, or to receive training, except for any time the agricultural worker spends taking a rest break;

"work" ("*gwaith*") means—

(a) any period during which the agricultural worker is working, at their employer's disposal and carrying out their activities or duties,

(b) any period during which the agricultural worker is receiving relevant training,

(c) any time spent travelling by an agricultural worker for the purposes of their employment but does not include time spent commuting between their home and their place of work,

(d) any period during which an agricultural worker is prevented from carrying out activities or duties in accordance with their contract or their apprenticeship due to bad weather.

(2) In this article the reference to agricultural workers who began their employment prior to the 1 October 2006 includes agricultural workers—

(a) whose contract terms have since been subject to any variation; or

(b) who have since been employed by a new employer pursuant to the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006(**1**).

(**1**) 1996 p. 18. Mewnosodwyd adran 80EA gan baragraff 2 o Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24).
(**2**) O.S. 2020/249.
(**3**) O.S. 2006/246.

(**1**) S.I. 2006/246.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at gyfnod o gyflogaeth ddi-dor i'w dehongli fel cyfnod o gyflogaeth ddi-dor a gyfrifir yn unol ag adrannau 210 i 219 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**1**).

(3) References in this Order to a period of continuous employment are to be construed as a period of continuous employment computed in accordance with sections 210 to 219 of the Employment Rights Act 1996(**1**).

## RHAN 2

## Gweithwyr amaethyddol

### Telerau ac amodau cyflogaeth

**3.** Mae cyflogaeth gweithiwr amaethyddol yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a nodir yn y Rhan hon ac yn Rhannau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn.

### Graddau a chategorïau gweithiwr amaethyddol

**4.** Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei gyflogi'n weithiwr amaethyddol ar un o'r Graddau a bennir yn erthyglau 5 i 9 neu fel prentis yn unol â'r darpariaethau yn erthygl 10.

### Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A

**5.** Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) sydd â llai na 3 blynedd o brofiad ymarferol sy'n berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, a

(b) na all ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer prentisiaeth lefel 2 sy'n berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth wedi eu dyfarnu iddo yn unol â'r fframwaith prentisiaethau, neu ei fod wedi bodloni gofynion prentisiaeth lefel 2 neu brentisiaeth gyfatebol, o'r tu allan i Gymru, fel y pennir yn Nhablau A neu B yn Atodlen 4, sy'n berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth,

gael ei gyflogi'n Weithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A.

## PART 2

## Agricultural workers

### Terms and conditions of employment

**3.** An agricultural worker's employment is subject to the terms and conditions set out in this Part and Parts 3, 4 and 5 of this Order.

### Grades and categories of agricultural worker

**4.** An agricultural worker must be employed as an agricultural worker at one of the Grades specified in articles 5 to 9 or as an apprentice in accordance with the provisions in article 10.

### Agricultural Development Worker Grade A

**5.** An agricultural worker who—

(a) has less than 3 years practical experience which is relevant to their role in agriculture, and

(b) cannot provide documentary evidence to an employer that they have been awarded the main qualification or qualifications required for a level 2 apprenticeship which is relevant to their role in agriculture, in accordance with the apprenticeship framework, or have met the requirements of a level 2 or equivalent apprenticeship, from outside Wales, as specified in the Tables A or B in Schedule 4 which is relevant to their role in agriculture,

must be employed as an Agricultural Development Worker Grade A.

(**1**) 1996 p. 18. Diwygiwyd adran 211 gan Atodlen 8 i O.S. 2006/1031. Diwygiwyd adran 212 gan Atodlenni 4 a 9 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 26). Diwygiwyd adran 215 gan Atodlen 7 i Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, etc.) 1999 (p. 2). Diwygiwyd adran 219 gan Atodlen 1 i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth (Datrys Anghydfodau) 1998 (p. 8). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1996 c. 18. Section 211 was amended by Schedule 8 to S.I. 2006/1031. Section 212 was amended by Schedules 4 and 9 to the Employment Relations Act 1999 (c. 26). Section 215 was amended by Schedule 7 to the Social Security Contributions (Transfer of Functions, etc.) Act 1999 (c. 2). Section 219 was amended by Schedule 1 to the Employment Rights (Dispute Resolution) Act 1998 (c. 8). There are other amending instruments but none are relevant to this Order.

**Gweithiwr Amaethyddol Gradd B**

**6.** Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer prentisiaeth lefel 2, y mae rhaid iddynt fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, wedi eu dyfarnu iddo yn unol â'r fframwaith prentisiaethau, neu ei fod wedi bodloni gofynion prentisiaeth lefel 2 neu brentisiaeth gyfatebol, o'r tu allan i Gymru, fel y pennir yn Nhablau A neu B yn Atodlen 4, y mae rhaid iddi fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, neu

(b) sydd ag o leiaf 3 blynedd o brofiad ymarferol mewn amaethyddiaeth fel Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A,

gael ei gyflogi'n Weithiwr Amaethyddol Gradd B.

**Agricultural Worker Grade B**

**6.** An agricultural worker who—

(a) provides documentary evidence to an employer that they have been awarded the main qualification or qualifications required for a level 2 apprenticeship, which must be relevant to their role in agriculture, in accordance with the apprenticeship framework, or have met the requirements of a level 2 or equivalent apprenticeship, from outside Wales, as specified in Tables A or B in Schedule 4 which must be relevant to their role in agriculture, or

(b) has at least 3 years of practical experience in agriculture at Agricultural Development Worker Grade A,

must be employed as an Agricultural Worker Grade B.

**Gweithiwr Amaethyddol Uwch Gradd C**

**7.**—(1) Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer prentisiaeth lefel 3, y mae rhaid iddynt fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, wedi eu dyfarnu iddo yn unol â'r fframwaith prentisiaethau, neu ei fod wedi bodloni gofynion prentisiaeth lefel 3 neu brentisiaeth gyfatebol, o'r tu allan i Gymru, fel y pennir yn Nhablau A neu B yn Atodlen 4, y mae rhaid iddi fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth,

(b) sydd ag o leiaf 2 flynedd o brofiad ymarferol mewn amaethyddiaeth fel Gweithiwr Amaethyddol Gradd B, neu

(c) sydd wedi ei gyflogi'n arweinydd tîm,

gael ei gyflogi'n Weithiwr Amaethyddol Uwch Gradd C.

(2) At ddibenion yr erthygl hon, mae "arweinydd tîm" yn gyfrifol am arwain tîm o weithwyr amaethyddol ac am fonitro sut mae'r tîm yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan neu ar ran eu cyflogwr ond nid yw'n gyfrifol am faterion disgyblu.

**Advanced Agricultural Worker Grade C**

**7.**—(1) An agricultural worker who—

(a) provides documentary evidence to an employer that they have been awarded the main qualification or qualifications required for a level 3 apprenticeship, which must be relevant to their role in agriculture, in accordance with the apprenticeship framework, or have met the requirements of a level 3 or equivalent apprenticeship, from outside Wales, as specified in Tables A or B in Schedule 4 which must be relevant to their role in agriculture,

(b) has at least 2 years of practical experience in agriculture at Agricultural Worker Grade B, or

(c) is employed as a team leader,

must be employed as an Advanced Agricultural Worker Grade C.

(2) For the purposes of this article, a "team leader" is responsible for leading a team of agricultural workers and for monitoring the team's compliance with instructions given by or on behalf of their employer but is not responsible for disciplinary matters.

**Uwch-weithiwr Amaethyddol Gradd D**

**8.** Rhaid i weithiwr amaethyddol—

(a) sy'n darparu tystiolaeth ddogfennol i gyflogwr fod y prif gymhwyster neu gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer prentisiaeth lefel 4, y mae rhaid iddynt fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, wedi eu dyfarnu iddo yn unol â'r fframwaith prentisiaethau, neu ei fod wedi bodloni gofynion prentisiaeth lefel 4 neu brentisiaeth gyfatebol, o'r tu allan i Gymru, fel y pennir yn Nhablau A neu B yn Atodlen 4, y mae rhaid iddi fod yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth, neu

(b) sydd â chyfrifoldebau sy'n cynnwys gweithredu penderfyniadau rheoli yn annibynnol neu oruchwylio staff,

gael ei gyflogi'n Uwch-weithiwr Amaethyddol Gradd D.

**Rheolwr Amaethyddol Gradd E**

**9.** Rhaid i weithiwr amaethyddol y mae'n ofynnol iddo ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd, gan gynnwys hurio a rheoli staff pan fo'n berthnasol—

(a) dros ddaliad cyfan y cyflogwr, neu

(b) dros ran o ddaliad y cyflogwr a redir fel gweithrediad neu fusnes ar wahân,

gael ei gyflogi'n Rheolwr Amaethyddol Gradd E.

**Prentisiaid**

**10.**—(1) Mae gweithiwr amaethyddol yn brentis sydd wedi ei gyflogi o dan brentisiaeth os yw'n cael ei gyflogi o dan naill ai contract prentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth o fewn ystyr "apprenticeship agreement" yn adran 32 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), neu'n cael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth.

(2) Rhaid i weithiwr amaethyddol gael ei drin fel pe bai wedi ei gyflogi o dan gontract prentisiaeth os yw wedi ei gymryd ymlaen yng Nghymru o dan drefniadau Llywodraeth o'r enw Prentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau neu Brentisiaethau Uwch.

**Senior Agricultural Worker Grade D**

**8.** An agricultural worker who—

(a) provides documentary evidence to an employer that they have been awarded the main qualification or qualifications required for a level 4 apprenticeship, which must be relevant to their role in agriculture, in accordance with the apprenticeship framework, or have met the requirements of a level 4 or equivalent apprenticeship, from outside Wales, as specified in Tables A or B in Schedule 4 which must be relevant to their role in agriculture, or

(b) has responsibilities including implementing management decisions independently or supervising staff,

must be employed as a Senior Agricultural Worker Grade D.

**Agricultural Manager Grade E**

**9.** An agricultural worker who is required to have day to day responsibility, including hiring and managing staff where relevant—

(a) for the entire of the employer's holding, or

(b) for part of the employer's holding which is run as a separate operation or business,

must be employed as an Agricultural Manager Grade E.

**Apprentices**

**10.**—(1) An agricultural worker is an apprentice employed under an apprenticeship if they are employed under either a contract of apprenticeship or an apprenticeship agreement within the meaning of section 32 of the Apprenticeships, Skills, Children and Learning Act 2009(**1**) or are treated as employed under a contract of apprenticeship.

(2) An agricultural worker must be treated as employed under a contract of apprenticeship if they are engaged in Wales under Government arrangements known as Foundation Apprenticeships, Apprenticeships or Higher Apprenticeships.

(**1**) 2009 p. 22

(**1**) 2009 c. 22.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "trefniadau Llywodraeth" yw trefniadau a wneir o dan adran 2 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973(**1**) neu o dan adran 17B o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**2**).

(3) In this article, "Government arrangements" means arrangements made under section 2 of the Employment and Training Act 1973(**1**) or under section 17B of the Jobseekers Act 1995(**2**).

# RHAN 3

## Yr isafswm cyflog amaethyddol

# PART 3

## Agricultural minimum wage

**Cyfraddau tâl isaf**

**11.**—(1)Yn ddarostyngedig i weithrediad adran 1 o Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998(**3**), rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â'u gwaith yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol.

(2) Yr isafswm cyflog amaethyddol yw'r gyfradd isaf fesul awr a bennir yn y Tabl yn Atodlen 1 fel y gyfradd sy'n gymwys i bob gradd o weithiwr amaethyddol ac i brentisiaid.

**Minimum rates of pay**

**11.**—(1) Subject to the operation of section 1 of the National Minimum Wage Act 1998(**3**), agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of their work at a rate which is not less than the agricultural minimum wage.

(2) The agricultural minimum wage is the minimum hourly rate specified in the Table in Schedule 1 as being applicable to each grade of agricultural worker and to apprentices.

**Cyfraddau tâl isaf am oramser**

**12.** Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â goramser a weithir yn ôl cyfradd sy'n cyfateb i o leiaf 1.5 gwaith eu cyfradd tâl sylfaenol fesul awr o dan eu contract neu brentisiaeth.

**Minimum rates of pay for overtime**

**12.** Agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of overtime worked at a rate which is equivalent to at least 1.5 times their basic hourly rate of pay under their contract or apprenticeship.

**Cyfraddau tâl isaf am waith allbwn**

**13.**—(1) Rhaid i weithwyr amaethyddol gael eu talu gan eu cyflogwr mewn cysylltiad â gwaith allbwn yn ôl cyfradd nad yw'n llai na'r isafswm cyflog amaethyddol a bennir yn erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 1 iddo sy'n gymwys i'w radd neu i'w gategori.

**Minimum rates of pay for output work**

**13.**—(1) Agricultural workers must be remunerated by their employer in respect of output work at a rate which is not less than the agricultural minimum wage specified in article 11 of, and Schedule 1 to, this Order which is applicable to their grade or category.

(**1**) 1973 p. 50. Diwygiwyd adran 2 gan adran 25 o Ddeddf Cyflogaeth 1988 (p. 19) ac adran 47 o Ddeddf Diwygio Undebau Llafur a Hawliau Cyflogaeth 1993 (p. 19). Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 1995 p. 18. Diddymwyd adran 17B gan adran 147 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) a Rhan 4 o Atodlen 14 iddi. Mae'r diddymiad yn cael effaith at ddibenion penodol yn unol ag O.S. 2013/983, O.S. 2013/1511, O.S. 2013/2657, O.S. 2013/2846, O.S. 2014/209, O.S. 2014/1583, O.S. 2014/2321, O.S. 2014/3094, O.S. 2015/33, O.S. 2015/101, O.S. 2015/634, O.S. 2015/1537, O.S. 2015/1930, O.S. 2016/33 ac O.S. 2016/407.

(**3**) 1998 p. 39.

(**1**) 1973 c. 50. Section 2 was amended by section 25 of the Employment Act 1988 (c. 19) and section 47 of the Trade Union Reform and Employment Rights Act 1993 (c. 19). Relevant functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) 1995 c. 18. Section 17B is repealed by section 147 of, and Part 4 of Schedule 14 to the Welfare Reform Act 2012 (c. 5). The repeal has effect for certain purposes pursuant to S.I. 2013/983, S.I. 2013/1511, S.I. 2013/2657, S.I. 2013/2846, S.I. 2014/209, S.I. 2014/1583, S.I. 2014/2321, S.I. 2014/3094, S.I. 2015/33, S.I. 2015/101, S.I. 2015/634, S.I. 2015/1537, S.I. 2015/1930, S.I. 2016/33 and S.I. 2016/407.

(**3**) 1998 c. 39.

(2) Yn yr erthygl hon ystyr "*gwaith allbwn*" yw gwaith sydd, at ddibenion tâl, yn cael ei fesur yn ôl nifer y darnau a wneir neu a brosesir neu nifer y tasgau a gyflawnir gan weithiwr amaethyddol.

**Lwfans gwrthbwyso llety**

**14.**—(1) Pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu tŷ i weithiwr amaethyddol am y cyfan o'r wythnos honno, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £1.97 yr wythnos oddi ar gyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy ar gyfer yr wythnos honno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), pan fo cyflogwr, mewn unrhyw wythnos, yn darparu llety arall i weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr dynnu'r swm o £6.31 y dydd oddi ar gyflog y gweithiwr amaethyddol sy'n daladwy am bob diwrnod yn yr wythnos y darperir y llety arall i'r gweithiwr amaethyddol.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (4), ystyr "tŷ" yw tŷ annedd cyfan neu lety hunangynhwysol (gan gynnwys unrhyw ardd o fewn cwrtil y tŷ annedd neu'r llety hunangynhwysol hwnnw) y mae'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol fyw ynddo yn rhinwedd contract y gweithiwr amaethyddol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau mewn modd priodol neu well.

(4) At ddibenion paragraff (2), ystyr "llety arall" yw unrhyw lety byw heblaw tŷ—

(a) sy'n addas i bobl fyw ynddo,

(b) sy'n ddiogel ac yn ddiddos,

(c) sy'n darparu gwely i'w ddefnyddio gan bob gweithiwr amaethyddol unigol yn unig, a

(d) sy'n darparu dŵr yfed glân, cyfleusterau glanweithdra addas a digonol a chyfleusterau ymolchi i weithwyr amaethyddol yn unol â rheoliadau 20 i 22 o Reoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992(**1**) fel pe bai'r llety'n weithle yr oedd rheoliadau 20 i 22 o'r Rheoliadau hynny'n gymwys iddo.

(5) Dim ond pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi gweithio o leiaf 15 awr yn ystod yr wythnos honno y caniateir i'r didyniad ym mharagraff (2) gael ei wneud.

(6) Rhaid i unrhyw amser yn ystod yr wythnos honno pan fo'r gweithiwr amaethyddol ar wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth gyfrif tuag at y 15 awr hynny.

(**1**) O.S. 1992/3004.

(2) In this article, "output work" means work which, for the purposes of remuneration, is measured by the number of pieces made or processed or the number of tasks performed by an agricultural worker.

**Accommodation offset allowance**

**14.**—(1) Where in any week an employer provides an agricultural worker with a house for the whole of that week, the employer may deduct the sum of £1.97 per week from the agricultural worker's wage payable for that week.

(2) Subject to paragraphs (5) and (6), where in any week an employer provides an agricultural worker with other accommodation, the employer may deduct the sum of £6.31 per day from the agricultural worker's wage payable for each day in the week that the other accommodation is provided to the agricultural worker.

(3) For the purposes of paragraphs (1) and (4), a "house" means a whole dwelling house or self-contained accommodation (including any garden within the curtilage of such a dwelling house or self-contained accommodation) that by virtue of the agricultural worker's contract the agricultural worker is required to live in for the proper or better performance of their duties.

(4) For the purposes of paragraph (2), "other accommodation" means any living accommodation other than a house which—

(a) is fit for human habitation,

(b) is safe and secure,

(c) provides a bed for the sole use of each individual agricultural worker, and

(d) provides clean drinking water, suitable and sufficient sanitary conveniences and washing facilities for agricultural workers in accordance with regulations 20 to 22 of the Workplace (Health, Safety and Welfare) Regulations 1992(**1**) as if the accommodation was a workplace to which regulations 20 to 22 of those Regulations applied.

(5) The deduction in paragraph (2) may only be made when the agricultural worker has worked for a minimum of 15 hours in that week.

(6) Any time during that week when the agricultural worker is on annual leave or bereavement leave must count towards those 15 hours.

(**1**) S.I. 1992/3004.

**Taliadau nad ydynt yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol**

**15.**—(1) Nid yw'r lwfansau a'r taliadau a ganlyn yn ffurfio rhan o dâl gweithiwr amaethyddol—

(a) lwfans cŵn o £11.18 y ci i'w dalu'n wythnosol pan fo'i gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gadw un neu ragor o gŵn,

(b) lwfans ar alwad o swm sy'n cyfateb i dair gwaith cyfradd fesul awr y gweithiwr amaethyddol yn ôl ei radd. Mae'r lwfans ar alwad yn daladwy mewn cysylltiad â phob cyfnod y mae'r gweithiwr amaethyddol ar alwad. Ni chaiff cyfnod trefniant ar alwad fod yn hwy na 24 awr,

(c) lwfans gwaith nos o £2.12 am bob awr o waith nos, a

(d) grant geni a mabwysiadu o £87.85 am bob plentyn.

(2) Yn yr erthygl hon—

ystyr "ar alwad" ("*on-call*") yw trefniant ffurfiol rhwng y gweithiwr amaethyddol a'i gyflogwr pan fo gweithiwr amaethyddol nad yw yn y gwaith yn cytuno â'i gyflogwr y bydd modd cysylltu ag ef drwy gyfrwng y cytunir arno ac y gall gyrraedd y fan lle y gall fod yn ofynnol iddo weithio o fewn amser y cytunir arno;

ystyr "grant geni a mabwysiadu" ("*birth and adoption grant*") yw taliad y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael oddi wrth ei gyflogwr pan enir plentyn iddo neu pan fydd yn mabwysiadu plentyn ac mae'n daladwy—

(a) pan fo'r gweithiwr amaethyddol wedi rhoi copi i'w gyflogwr o Dystysgrif Geni'r plentyn neu ei Orchymyn Mabwysiadu (sy'n enwi'r gweithiwr amaethyddol fel rhiant y plentyn neu ei riant mabwysiadol) o fewn 3 mis ar ôl geni neu fabwysiadu'r plentyn, a

(b) o dan amgylchiadau pan fo'r ddau riant neu'r ddau riant mabwysiadol yn weithwyr amaethyddol gyda'r un cyflogwr, i'r ddau weithiwr amaethyddol;

ystyr "gwaith nos" ("*night work*") yw gwaith (heblaw oriau goramser) a wneir gan weithiwr amaethyddol rhwng 7 p.m. un noson a 6 a.m. fore trannoeth, ond heb gynnwys y ddwy awr gyntaf o waith y mae gweithiwr amaethyddol yn ei wneud yn y cyfnod hwnnw.

**Payments which do not form part of an agricultural worker's remuneration**

**15.**—(1) The following allowances and payments do not form part of an agricultural worker's remuneration—

(a) a dog allowance of £11.18 per dog to be paid weekly where an agricultural worker is required by their employer to keep one or more dogs,

(b) an on-call allowance of a sum which is equivalent to three times the hourly rate of the agricultural worker according to their grade. The on-call allowance is payable in respect of every period the agricultural worker is on-call. The period of an on-call arrangement must not exceed 24 hours,

(c) a night work allowance of £2.12 for each hour of night work, and

(d) a birth and adoption grant of £87.85 for each child.

(2) In this article—

"birth and adoption grant" ("*grant geni a mabwysiadu*") means a payment that an agricultural worker is entitled to receive from their employer on the birth of their child or upon the adoption of a child and is payable—

(a) where the agricultural worker has given their employer a copy of the child's Birth Certificate or Adoption Order (naming the agricultural worker as the child's parent or adoptive parent) within 3 months of the child's birth or adoption, and

(b) in circumstances where both parents or adoptive parents are agricultural workers with the same employer, to each agricultural worker;

"night work" ("*gwaith nos*") means work (apart from overtime hours) undertaken by an agricultural worker between 7 p.m. on one evening and 6 a.m. the following morning, but excluding the first two hours of work that an agricultural worker does in that period;

"on-call" ("*ar alwad*") means a formal arrangement between the agricultural worker and their employer where an agricultural worker who is not at work agrees with their employer to be contactable by an agreed method and able to reach the place where they may be required to work within an agreed time.

**Costau hyfforddi**

**16.**—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn mynd ar gwrs hyfforddi gyda chytundeb ei gyflogwr ymlaen llaw, rhaid i'r cyflogwr dalu—

(a) unrhyw ffioedd am y cwrs, a

(b) unrhyw gostau teithio a llety yr eir iddynt gan y gweithiwr amaethyddol wrth fynd ar y cwrs.

(2) Bernir bod gweithiwr amaethyddol sydd wedi ei gyflogi'n ddi-dor fel Gweithiwr Datblygu Amaethyddol Gradd A gan yr un cyflogwr am ddim llai na 30 wythnos wedi cael cymeradwyaeth ei gyflogwr i ymgymryd â hyfforddiant gyda golwg ar sicrhau'r cymwysterau angenrheidiol sy'n ofynnol gan Weithiwr Amaethyddol Gradd B.

(3) Y cyflogwr sydd i dalu am unrhyw hyfforddiant y mae gweithiwr amaethyddol yn ymgymryd ag ef yn unol â pharagraff (2).

(4) Os yw'r gweithiwr amaethyddol yn rhoi'r gorau i'w gyflogaeth yn ystod y cwrs hyfforddi neu o fewn 12 mis i gwblhau'r cwrs hyfforddi, caiff y cyflogwr adennill y costau a amlinellir ym mharagraff 1—

(a) i'r graddau eu bod wedi cael eu hariannu gan y cyflogwr ac nid gan drydydd parti (e.e. drwy grant neu gymhorthdal perthnasol arall), a

(b) ar yr amod bod contract y gweithiwr amaethyddol yn darparu ar gyfer adennill costau hyfforddi o'r fath.

(5) Ni fydd yn ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol ad-dalu unrhyw gostau hyfforddi pan fo'r cyflogwr wedi terfynu ei gyflogaeth ac eithrio pan oedd gan y cyflogwr hawl i derfynu'r gyflogaeth yn ddiannod a'i fod wedi gwneud hynny.

**Training costs**

**16.**—(1) Where an agricultural worker attends a training course with the prior agreement of their employer, the employer must pay—

(a) any fees for the course, and

(b) any travelling and accommodation expenses incurred by the agricultural worker attending the course.

(2) An agricultural worker who has been continuously employed at Agricultural Development Worker Grade A by the same employer for not less than 30 weeks is deemed to have received the approval of their employer to undertake training with a view to attaining the necessary qualifications required of an Agricultural Worker Grade B.

(3) Any training undertaken by an agricultural worker in accordance with paragraph (2) is to be paid for by the employer.

(4) If the agricultural worker ceases employment during the training course or within 12 months of completing the training course, the employer may recover the costs outlined in paragraph 1—

(a) to the extent that they have been funded by the employer and not by a third-party (e.g. by way of grant or other relevant subsidy), and

(b) provided that the agricultural worker's contract provides for such recovery of training costs.

(5) The agricultural worker will not be required to repay any training costs where the employer has terminated their employment except where the employer was entitled to and did terminate the employment summarily.

# RHAN 4

## Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

**Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol**

**17.** Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn y Rhan hon, mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr mewn cysylltiad â'i absenoldeb salwch.

# PART 4

## Entitlement to agricultural sick pay

**Entitlement to agricultural sick pay**

**17.** Subject to the provisions in this Part, an agricultural worker is entitled to receive agricultural sick pay from their employer in respect of their sickness absence.

**Amodau cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol**

**18.** Mae gweithiwr amaethyddol yn cymhwyso ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn ar yr amod bod y gweithiwr amaethyddol—

(a) wedi cael ei gyflogi'n ddi-dor gan ei gyflogwr am gyfnod o 52 o wythnosau o leiaf cyn yr absenoldeb salwch,

(b) wedi hysbysu ei gyflogwr am yr absenoldeb salwch mewn ffordd y cytunwyd arno yn flaenorol gyda'i gyflogwr neu, yn niffyg unrhyw gytundeb o'r fath, drwy unrhyw ddull rhesymol, ac

(c) o dan amgylchiadau pan fo'r absenoldeb salwch wedi parhau am gyfnod o 8 diwrnod yn olynol neu ragor, wedi darparu tystysgrif i'w gyflogwr gan ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n datgelu'r diagnosis ynghylch anhwylder meddygol y gweithiwr amaethyddol ac sy'n datgan mai'r anhwylder sydd wedi achosi absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol.

**Qualifying conditions for agricultural sick pay**

**18.** An agricultural worker qualifies for agricultural sick pay under this Order provided that the agricultural worker has—

(a) been continuously employed by their employer for a period of at least 52 weeks prior to the sickness absence,

(b) notified their employer of the sickness absence in a way previously agreed with their employer or, in the absence of any such agreement, by any reasonable means, and

(c) in circumstances where the sickness absence has continued for a period of 8 or more consecutive days, provided their employer with a certificate from a registered medical practitioner which discloses the diagnosis of the agricultural worker's medical disorder and states that the disorder has caused the agricultural worker's sickness absence.

**Cyfnodau absenoldeb salwch**

**19.** Rhaid i unrhyw 2 gyfnod o absenoldeb salwch sydd â chyfnod o 14 o ddiwrnodau neu lai rhyngddynt gael eu trin fel un cyfnod o absenoldeb salwch.

**Periods of sickness absence**

**19.** Any 2 periods of sickness absence which are separated by a period of 14 days or less must be treated as a single period of sickness absence.

**Cyfyngiadau ar yr hawl i dâl salwch amaethyddol**

**20.**—(1) Nid yw tâl salwch amaethyddol yn daladwy am y 3 diwrnod cyntaf o absenoldeb salwch o dan amgylchiadau pan fo hyd yr absenoldeb salwch yn llai na 14 o ddiwrnodau.

(2) Yn ystod pob cyfnod hawl, uchafswm nifer yr wythnosau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael tâl salwch amaethyddol ar eu cyfer yw—

(a) 13 o wythnosau yn ail flwyddyn y gyflogaeth;

(b) 16 o wythnosau yn nhrydedd flwyddyn y gyflogaeth;

(c) 19 o wythnosau ym mhedwaredd flwyddyn y gyflogaeth;

(d) 22 o wythnosau ym mhumed flwyddyn y gyflogaeth;

(e) 26 o wythnosau yn chweched flwyddyn a phob blwyddyn olynol y gyflogaeth.

**Limitations on entitlement to agricultural sick pay**

**20.**—(1) Agricultural sick pay is not payable for the first 3 days of sickness absence in circumstances where the duration of the sickness absence is less than 14 days.

(2) During each period of entitlement, the maximum number of weeks that an agricultural worker is entitled to agricultural sick pay is—

(a) 13 weeks in the second year of employment;

(b) 16 weeks in the third year of employment;

(c) 19 weeks in the fourth year of employment;

(d) 22 weeks in the fifth year of employment;

(e) 26 weeks in the sixth and all subsequent years of employment.

(3) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu, pan fo'n gymwys, unrhyw oramser gwarantedig ar nifer penodedig o ddiwrnodau bob wythnos, cyfrifir uchafswm nifer y diwrnodau o dâl salwch amaethyddol y mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i'w cael drwy luosi uchafswm nifer yr wythnosau sy'n berthnasol i'r gweithiwr amaethyddol â nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos.

(4) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu, pan fo'n gymwys, unrhyw oramser gwarantedig ar nifer amrywiol o ddiwrnodau bob wythnos, cyfrifir uchafswm nifer y diwrnodau o dâl salwch amaethyddol y mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i'w cael drwy luosi uchafswm nifer yr wythnosau sy'n berthnasol i'r gweithiwr amaethyddol â nifer y diwrnodau perthnasol.

(5) Cyfrifir nifer y diwrnodau perthnasol drwy rannu nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd yn ystod y cyfnod o 12 mis yn arwain at gyfnod yr absenoldeb salwch â 52.

(6) Mae uchafswm hawl gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol yn gymwys pa faint bynnag o gyfnodau o absenoldeb salwch a geir yn ystod unrhyw gyfnod hawl.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), yn yr erthygl hon, "cyfnod hawl" yw cyfnod sy'n dechrau â chychwyn absenoldeb salwch ac sy'n dod i ben 12 mis yn ddiweddarach.

(8) Os yw'r gweithiwr amaethyddol yn cael cyfnod o absenoldeb salwch sy'n cychwyn unrhyw bryd yn ystod y cyfnod hawl a ddisgrifir ym mharagraff (7), ond sy'n parhau y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod hawl hwnnw, rhaid estyn y cyfnod hawl fel y bo'n dod i ben â pha un bynnag o'r canlynol sy'n digwydd gyntaf—

(a) y dyddiad y mae absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol yn dod i ben ac y mae'r gweithiwr amaethyddol yn dychwelyd i'r gwaith, neu

(b) y diwrnod y mae'r gweithiwr amaethyddol yn cyrraedd uchafswm yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol sy'n gymwys i'r cyfnod o 12 mis y cyfeirir ato ym mharagraff (7) (pe na bai hwnnw wedi ei estyn).

**Pennu swm tâl salwch amaethyddol**

**21.**—(1) Mae tâl salwch amaethyddol yn daladwy yn ôl cyfradd sy'n cyfateb i o leiaf y gyfradd tâl isaf fesul awr a ragnodir yn erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn ac Atodlen 1 iddo fel y gyfradd sy'n gymwys i'r radd honno neu'r categori hwnnw o weithiwr amaethyddol.

(3) Where an agricultural worker works basic hours or, where applicable, any guaranteed overtime on a fixed number of days each week, the maximum number of days of agricultural sick pay that the agricultural worker is entitled to is calculated by multiplying the maximum number of weeks relevant to the agricultural worker by the number of qualifying days worked each week.

(4) Where an agricultural worker works basic hours or, where applicable, any guaranteed overtime on a varying number of days each week, the maximum number of days of agricultural sick pay that the agricultural worker is entitled to is calculated by multiplying the maximum number of weeks relevant to the agricultural worker by the number of relevant days.

(5) The number of relevant days is calculated by dividing the number of qualifying days worked during a period of 12 months leading up to the period of sickness absence by 52.

(6) An agricultural worker's maximum entitlement to agricultural sick pay applies regardless of the number of occasions of sickness absence during any period of entitlement.

(7) Subject to paragraph (8), in this article, "a period of entitlement" is a period beginning with the commencement of a sickness absence and ending 12 months later.

(8) If the agricultural worker has a period of sickness absence which commences at any time during the period of entitlement described in paragraph (7), but which continues beyond the end of that period of entitlement, the period of entitlement must be extended so as to end on whichever of the following first occurs—

(a) the date when the agricultural worker's sickness absence ends and the agricultural worker returns to work, or

(b) the day on which the agricultural worker reaches the maximum entitlement to agricultural sick pay applicable to the 12 month period referred to in paragraph (7) (had it not been extended).

**Determining the amount of agricultural sick pay**

**21.**—(1) Agricultural sick pay is payable at a rate which is equivalent to at least the minimum hourly rate of pay prescribed in article 11 of, and Schedule 1 to, this Order as applicable to that grade or category of agricultural worker.

(2) Pennir swm y tâl salwch amaethyddol sy'n daladwy i weithiwr amaethyddol drwy gyfrifo nifer yr oriau contract dyddiol a fyddai wedi cael eu gweithio yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch.

(3) Pennir nifer yr oriau contract dyddiol—

(a) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer penodedig o oriau bob wythnos drwy rannu cyfanswm nifer yr oriau a weithiwyd yn ystod unrhyw wythnos â nifer y diwrnodau a weithiwyd yn yr wythnos honno;

(b) o dan amgylchiadau pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio nifer amrywiol o oriau bob wythnos, drwy ddefnyddio'r fformwla—

$$\frac{QH \div 8}{DWEW}$$

pan fo, at ddibenion yr erthygl hon:

**QH** yn gyfanswm nifer yr oriau cymwys yn y cyfnod, a

**DWEW** yn nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol o'u cymryd ar gyfartaledd yn ystod cyfnod o 8 wythnos yn union cyn i'r absenoldeb salwch gychwyn.

(4) Yn yr erthygl hon—

"diwrnodau cymwys" ("*qualifying days*") yw unrhyw ddiwrnodau o fewn y cyfnod y cafwyd ynddynt oriau cymwys mewn perthynas â'r gweithiwr amaethyddol

"oriau cymwys" ("*qualifying hours*") yw oriau—

(a) pan fu'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio oriau sylfaenol neu oramser gwarantedig,

(b) pan gymerodd y gweithiwr amaethyddol wyliau blynyddol neu absenoldeb oherwydd profedigaeth,

(c) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch a oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn, neu

(d) pan gafodd y gweithiwr amaethyddol absenoldeb salwch nad oedd yn gymwys ar gyfer tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn.

(2) The amount of agricultural sick pay payable to an agricultural worker is determined by calculating the number of daily contractual hours that would have been worked during a period of sickness absence.

(3) The number of daily contractual hours are determined—

(a) in circumstances where an agricultural worker works a fixed number of hours each week by dividing the total number of hours worked during any week by the number of days worked in that week;

(b) in circumstances where an agricultural worker works a varying number of hours each week, by applying the formula—

$$\frac{QH \div 8}{DWEW}$$

where for the purposes of this article:

**QH** is the total number of qualifying hours in the period, and

**DWEW** is the number of days worked each week by the agricultural worker when taken as an average during a period of 8 weeks immediately preceding the commencement of the sickness absence.

(4) In this article—

"qualifying days" ("*diwrnodau cymwys*") are any days within the period on which there were qualifying hours relating to the agricultural worker;

"qualifying hours" ("*oriau cymwys*") are hours where—

(a) the agricultural worker worked basic hours or guaranteed overtime,

(b) the agricultural worker took annual leave or bereavement leave,

(c) the agricultural worker had sickness absence qualifying for agricultural sick pay under this Order, or

(d) the agricultural worker had sickness absence not qualifying for agricultural sick pay under this Order.

**Tâl salwch amaethyddol i gymryd tâl salwch statudol i ystyriaeth**

**22.** Caniateir i swm sy'n hafal i unrhyw daliad tâl salwch statudol a wneir yn unol â Rhan XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**) mewn cysylltiad â chyfnod absenoldeb salwch gweithiwr amaethyddol gael ei dynnu oddi ar dâl salwch amaethyddol y gweithiwr amaethyddol hwnnw.

**Talu tâl salwch amaethyddol**

**23.** Rhaid i dâl salwch amaethyddol gael ei dalu i'r gweithiwr amaethyddol ar ei ddiwrnod cyflog arferol yn unol â naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth.

**Cyflogaeth yn dod i ben yn ystod absenoldeb salwch**

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), os yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch, y terfynir naill ai contract gweithiwr amaethyddol neu ei brentisiaeth neu y rhoddir hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth i gael ei derfynu neu ei therfynu, mae unrhyw hawl sydd gan y gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol yn parhau ar ôl i'r contract hwnnw ddod i ben fel pe bai'r gweithiwr amaethyddol yn dal yn cael ei gyflogi gan ei gyflogwr, hyd nes i un o'r canlynol ddigwydd—

(a) bod absenoldeb salwch y gweithiwr amaethyddol yn dod i ben,

(b) bod y gweithiwr amaethyddol yn dechrau gweithio i gyflogwr arall, neu

(c) bod uchafswm yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol yn unol ag erthygl 20 yn cael ei ddihysbyddu.

(2) Nid oes gan weithiwr amaethyddol y terfynwyd ei gontract hawl i gael unrhyw dâl salwch amaethyddol ar ôl diwedd ei gyflogaeth yn unol â pharagraff (1) os rhoddwyd hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod ei gyflogwr yn bwriadu terfynu ei gontract neu ei brentisiaeth cyn i'r cyfnod o absenoldeb salwch gychwyn.

**Agricultural sick pay to take account of statutory sick pay**

**22.** An amount equal to any payment of statutory sick pay made in accordance with Part XI of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992(**1**) in respect of a period of an agricultural worker's sickness absence may be deducted from that agricultural worker's agricultural sick pay.

**Payment of agricultural sick pay**

**23.** Agricultural sick pay must be paid to the agricultural worker on their normal pay day in accordance with either their contract or their apprenticeship.

**Employment ending during sickness absence**

**24.**—(1) Subject to paragraph (2), if during a period of sickness absence, either an agricultural worker's contract or their apprenticeship is terminated or the agricultural worker is given notice that either their contract or their apprenticeship is to be terminated, any entitlement which the agricultural worker has to agricultural sick pay continues after that contract ends as if the agricultural worker was still employed by their employer, until one of the following occurs—

(a) the agricultural worker's sickness absence ends,

(b) the agricultural worker starts work for another employer, or

(c) the maximum entitlement to agricultural sick pay in accordance with article 20 is exhausted.

(2) An agricultural worker whose contract has been terminated is not entitled to any agricultural sick pay after the end of their employment in accordance with paragraph (1) if the agricultural worker was given notice that their employer intended to terminate their contract or their apprenticeship before the period of sickness absence commenced.

(**1**) 1992 p. 4.

(**1**) 1992 c. 4.

**Gordalu tâl salwch amaethyddol**

**25.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff (2), os caiff gweithiwr amaethyddol sydd â hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan y Rhan hon daliad am fwy o dâl salwch amaethyddol na'i hawl, caiff ei gyflogwr adennill gordaliad y tâl salwch amaethyddol hwnnw drwy ei dynnu oddi ar gyflog y gweithiwr amaethyddol hwnnw.

(2) Os tynnir gordaliad tâl salwch amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn fel y'i crybwyllir ym mharagraff (1), ni chaiff y cyflogwr dynnu mwy nag 20% o gyflog gros y gweithiwr amaethyddol oni bai bod hysbysiad wedi ei roi i derfynu'r gyflogaeth neu fod y gyflogaeth eisoes wedi ei therfynu, pryd y caniateir i fwy nag 20% o gyflog gros y gweithiwr amaethyddol gael ei dynnu gan y cyflogwr oddi ar daliad cyflog olaf y gweithiwr amaethyddol.

**Iawndal a adenillir yn sgil colli enillion**

**26.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i weithiwr amaethyddol y mae ei hawl i gael tâl salwch amaethyddol yn codi oherwydd gweithred neu anweithred person heblaw ei gyflogwr ac mae'r iawndal yn cael ei adennill gan y gweithiwr amaethyddol mewn cysylltiad â cholled enillion a ddioddefwyd yn ystod y cyfnod y cafodd y gweithiwr amaethyddol dâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr ar ei gyfer.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys—

(a) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol roi gwybod ar unwaith i'w gyflogwr am yr holl amgylchiadau perthnasol ac am unrhyw hawliad ac am unrhyw iawndal a adenillwyd o dan unrhyw gyfaddawd, setliad neu ddyfarniad,

(b) rhaid i'r holl dâl salwch amaethyddol a dalwyd gan y cyflogwr i'r gweithiwr amaethyddol hwnnw mewn cysylltiad â'r absenoldeb salwch yr adenillir iawndal am golli enillion ar ei gyfer fod yn gyfystyr â benthyciad i'r gweithiwr amaethyddol, ac

(c) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol ad-dalu i'w gyflogwr swm nad yw'n fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

(i) swm yr iawndal a adenillwyd am golli enillion yn y cyfnod y talwyd tâl salwch amaethyddol ar ei gyfer, a

(ii) y symiau a roddwyd i'r gweithiwr amaethyddol gan ei gyflogwr o dan y Rhan hon ar ffurf tâl salwch amaethyddol.

**Overpayments of agricultural sick pay**

**25.**—(1) Subject to the provisions of paragraph (2), if an agricultural worker who is entitled to agricultural sick pay under this Part is paid more agricultural sick pay than their entitlement, their employer may recover the overpayment of such agricultural sick pay by deduction from that agricultural worker's wages.

(2) If an overpayment of agricultural sick pay under this Order is deducted as mentioned in paragraph (1), the employer must not deduct more than 20% of the agricultural worker's gross wage unless notice has been given to terminate the employment or the employment has already been terminated, in which case more than 20% of the agricultural worker's gross wage may be deducted by the employer from payment of the agricultural worker's final wages.

**Damages recovered for loss of earnings**

**26.**—(1) This article applies to an agricultural worker whose entitlement to agricultural sick pay arises because of the actions or omissions of a person other than their employer and damages are recovered by the agricultural worker in respect of loss of earnings suffered during the period in respect of which the agricultural worker received agricultural sick pay from their employer.

(2) Where paragraph (1) applies—

(a) the agricultural worker must immediately notify their employer of all the relevant circumstances and of any claim and of any damages recovered under any compromise, settlement or judgment,

(b) all agricultural sick pay paid by the employer to that agricultural worker in respect of the sickness absence for which damages for loss of earnings are recovered must constitute a loan to the agricultural worker, and

(c) the agricultural worker must refund to their employer a sum not exceeding the lesser of—

(i) the amount of damages recovered for loss of earnings in the period for which agricultural sick pay was paid, and

(ii) the sums advanced to the agricultural worker from their employer under this Part by way of agricultural sick pay.

## RHAN 5

## Yr hawl i gael amser i ffwrdd

### Seibiannau gorffwys

**27.** Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i seibiannau gorffwys yn unol â rheoliadau 12, 20, 21 a 24 o Reoliadau Amser Gwaith 1998(**1**).

### Gorffwys dyddiol

**28.** Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gyfnod gorffwys dyddiol yn unol â rheoliadau 10, 20, 21 a 24 o Reoliadau Amser Gwaith 1998.

### Cyfnod gorffwys wythnosol

**29.** Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gyfnod gorffwys wythnosol yn unol â rheoliadau 11, 20, 21 a 24 o Reoliadau Amser Gwaith 1998.

### Y flwyddyn gwyliau blynyddol

**30.** Y flwyddyn gwyliau blynyddol i bob gweithiwr amaethyddol yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Hydref ac sy'n dod i ben ar 30 Medi, oni bai bod y gweithiwr amaethyddol a'i gyflogwr yn cytuno rhyngddynt ar flwyddyn gwyliau wahanol.

### Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio penodedig a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau

**31.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol a gyflogir gan yr un cyflogwr drwy gydol y flwyddyn gwyliau blynyddol hawl i gael y swm gwyliau blynyddol a ragnodir yn y Tabl yn Atodlen 2.

(2) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol a, phan fo'n gymwys, unrhyw oramser gwarantedig ar nifer penodedig o ddiwrnodau cymwys bob wythnos, nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos at ddibenion y Tabl yn Atodlen 2 yw'r nifer penodedig hwnnw o ddiwrnodau.

(**1**) O.S. 1998/1833, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/3372 ac O.S. 2002/3128; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

## PART 5

## Entitlement to time off

### Rest breaks

**27.** An agricultural worker is entitled to rest breaks in accordance with regulations 12, 20, 21 and 24 of the Working Time Regulations 1998(**1**).

### Daily rest

**28.** An agricultural worker is entitled to a daily rest period in accordance with regulations 10, 20, 21 and 24 of the Working Time Regulations 1998.

### Weekly rest period

**29.** An agricultural worker is entitled to a weekly rest period in accordance with regulations 11, 20, 21 and 24 of the Working Time Regulations 1998.

### Annual leave year

**30.** The annual leave year for all agricultural workers is the period of 12 months beginning on 1 October and ending on 30 September, unless a different leave year is mutually agreed by the agricultural worker and their employer.

### Amount of annual leave for agricultural workers with fixed working days employed throughout the annual leave year

**31.**—(1) An agricultural worker who is employed by the same employer throughout the annual leave year is entitled to the amount of annual leave prescribed in the Table in Schedule 2.

(2) Where an agricultural worker works their basic hours and, where applicable, any guaranteed overtime on a fixed number of qualifying days each week, the number of days worked each week for the purposes of the Table in Schedule 2 is that fixed number of days.

(**1**) S.I. 1998/1833, amended by S.I. 1999/3372 and S.I. 2002/3128; there are other amending instruments but none are relevant to this Order.

**Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a chanddynt ddiwrnodau gweithio neu oriau amrywiol a gyflogir drwy gydol y flwyddyn gwyliau blynyddol**

**32.**—(1) Pan fo gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar nifer amrywiol o ddiwrnodau bob wythnos, cymerir mai nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos at ddibenion y Tabl yn Atodlen 2 yw cyfartaledd nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos yn ystod y cyfnod o 52 o wythnosau yn union cyn i flwyddyn gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol gychwyn a rhaid i'r nifer cyfartalog hwnnw o ddiwrnodau cymwys gael ei dalgrynnu i'r diwrnod cyfan agosaf, pan fo hynny'n briodol.

(2) Ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol rhaid i'r cyflogwr gyfrifo hawl wirioneddol y gweithiwr amaethyddol at ddibenion y Tabl yn Atodlen 2, ar sail nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos, wedi ei gymryd fel cyfartaledd nifer y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos yn ystod y flwyddyn gwyliau blynyddol (h.y. dros gyfnod o 52 o wythnosau) a rhaid i nifer cyfartalog y diwrnodau cymwys gael ei dalgrynnu i'r diwrnod cyfan agosaf, pan fo hynny'n briodol.

(3) Os yw'r gweithiwr amaethyddol, ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol, wedi cronni hawl gwyliau blynyddol ond heb ei chymryd, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i ddwyn ymlaen unrhyw wyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd i'r flwyddyn gwyliau blynyddol ganlynol yn unol ag erthygl 34(3) o'r Gorchymyn hwn neu caiff y gweithiwr amaethyddol a'r cyflogwr gytuno i daliad yn lle unrhyw hawl gwyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd yn unol ag erthygl 37.

(4) Os yw'r gweithiwr amaethyddol, ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol, wedi cymryd mwy o ddiwrnodau gwyliau nag yr oedd ganddo hawl iddynt o dan y Gorchymyn hwn, ar sail nifer cyfartalog y diwrnodau cymwys a weithiwyd bob wythnos (wedi ei gyfrifo yn unol â pharagraff (2)), mae gan y cyflogwr hawl i ddidynnu unrhyw dâl am ddiwrnodau gwyliau a gymerwyd uwchlaw hawl y gweithiwr amaethyddol neu, fel arall, ddidynnu'r diwrnodau gwyliau a gymerwyd uwchlaw hawl y gweithiwr amaethyddol o'i hawl ar gyfer y flwyddyn gwyliau blynyddol ganlynol (ar yr amod nad yw didyniad o'r fath yn arwain at fod y gweithiwr amaethyddol yn cael llai na'i hawl gwyliau blynyddol statudol llawn o dan reoliadau 13 a 13A o Reoliadau Amser Gwaith 1998(**1**)).

(**1**) O.S. 1998/1833, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/3256, 2007/2079 a 2023/1426.

**Amount of annual leave for agricultural workers with variable working days or hours employed throughout the annual leave year**

**32.**—(1) Where an agricultural worker works their basic hours on a varying number of days each week, the number of days worked each week for the purposes of the Table in Schedule 2 is to be taken as an average of the number of qualifying days worked each week during the period of 52 weeks immediately preceding the commencement of the agricultural worker's annual leave year and that average number of qualifying days must, where appropriate, be rounded to the nearest whole day.

(2) At the end of the annual leave year the employer must calculate the agricultural worker's actual entitlement for the purposes of the Table in Schedule 2, based upon the number of qualifying days worked each week, taken as an average of the number of qualifying days worked each week during the annual leave year (i.e. over a period of 52 weeks) and the average number of qualifying days must be, where appropriate, rounded to the nearest whole day.

(3) If at the end of the annual leave year the agricultural worker has accrued but untaken annual leave entitlement, the agricultural worker is entitled to carry forward any accrued but untaken annual leave to the following annual leave year in accordance with article 34(3) of this Order or the agricultural worker and the employer may agree to a payment in lieu of any accrued but untaken annual leave entitlement in accordance with article 37.

(4) If at the end of the annual leave year the agricultural worker has taken more holiday days than they were entitled to under this Order, based on the average number of qualifying days worked per week (calculated in accordance with paragraph (2)), the employer is entitled to deduct any pay for holiday days taken in excess of the agricultural worker's entitlement or, in the alternative, deduct the holiday days taken in excess of the agricultural worker's entitlement from their entitlement for the following annual leave year (provided any such deduction does not result in the agricultural worker receiving less than their full statutory annual leave entitlement under regulations 13 and 13A of the Working Time Regulations 1998(**1**)).

(**1**) S.I. 1998/1833, amended by S.I. 2001/3256, 2007/2079 and 2023/1426.

(5) Os yw'r gweithiwr amaethyddol yn weithiwr oriau afreolaidd neu'n weithiwr rhan o'r flwyddyn, caniateir cyfrifo ei hawl gwyliau blynyddol fel canran o'i oriau gwaith gwirioneddol yn seiliedig ar y cyfrifiad canlynol:

(cyfanswm yr hawl gwyliau blynyddol a fynegir mewn wythnosau a nodir yn Atodlen 2 ÷ wythnosau gwaith sy'n weddill yn y flwyddyn gwyliau blynyddol) x 100

(5) If the agricultural worker is an irregular hours worker or a part-year worker, their annual leave entitlement may be calculated as a percentage of their actual hours worked based on the following calculation:

(total annual leave entitlement expressed in weeks set out in Schedule 2 ÷ remaining working weeks in the annual leave year) x 100

**Swm gwyliau blynyddol gweithwyr amaethyddol a gyflogir am ran o'r flwyddyn gwyliau**

**33.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol a gyflogir gan yr un cyflogwr am ran o'r flwyddyn gwyliau blynyddol hawl i gronni gwyliau blynyddol yn ôl cyfradd o 1/52 o'r hawl gwyliau blynyddol a bennir yn y Tabl yn Atodlen 2 am bob wythnos orffenedig o wasanaeth gyda'r un cyflogwr.

(2) Pan fo swm y gwyliau blynyddol a gronnwyd mewn achos penodol yn cynnwys ffracsiwn o ddiwrnod heblaw hanner diwrnod, mae'r ffracsiwn hwnnw—

(a) i'w dalgrynnu i lawr i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n llai na hanner diwrnod, a

(b) i'w dalgrynnu i fyny i'r diwrnod cyfan nesaf os yw'n fwy na hanner diwrnod.

**Amount of annual leave for agricultural workers employed for part of the leave year**

**33.**—(1) An agricultural worker employed by the same employer for part of the annual leave year is entitled to accrue annual leave at a rate of 1/52nd of the annual leave entitlement specified in the Table in Schedule 2 for each completed week of service with the same employer.

(2) Where the amount of annual leave accrued in a particular case includes a fraction of a day other than a half day, that fraction is to be—

(a) rounded down to the next whole day if it is less than half a day, and

(b) rounded up to the next whole day if it is more than half a day.

**Amseru gwyliau blynyddol**

**34.**—(1) Caiff gweithiwr amaethyddol gymryd gwyliau blynyddol y mae ganddo hawl i'w cymryd o dan y Gorchymyn hwn unrhyw bryd o fewn y flwyddyn gwyliau blynyddol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(2) Nid oes gan weithiwr amaethyddol hawl i ddwyn unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas cymerwyd ymlaen o'r naill flwyddyn gwyliau blynyddol i'r flwyddyn gwyliau blynyddol nesaf heb gymeradwyaeth ei gyflogwr.

(3) Pan fo cyflogwr wedi cytuno y caiff gweithiwr amaethyddol ddwyn unrhyw hawl gwyliau blynyddol nas cymerwyd ymlaen, dim ond yn ystod y flwyddyn gwyliau blynyddol y mae'n cael ei ddwyn ymlaen iddi y caniateir i'r balans gael ei gymryd.

(4) Yn ystod y 6 mis cyntaf mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol caiff cyflogwr ei gwneud yn ofynnol i weithiwr amaethyddol gymryd hyd at 2 wythnos o'i hawl gwyliau blynyddol o dan y Gorchymyn hwn a chaiff gyfarwyddo i'r gweithiwr amaethyddol gymryd un o'r 2 wythnos hynny o wyliau blynyddol ar ddiwrnodau yn yr un wythnos.

**Timing of annual leave**

**34.**—(1) An agricultural worker may take annual leave to which they are entitled under this Order at any time within the annual leave year subject to the approval of their employer.

(2) An agricultural worker is not entitled to carry forward from one annual leave year to the next annual leave year any untaken annual leave entitlement without the approval of their employer.

(3) Where an employer has agreed that an agricultural worker may carry forward any untaken annual leave entitlement, the balance carried forward may only be taken in the annual leave year to which it is carried forward.

(4) During the first 6 months in any annual leave year an employer may require an agricultural worker to take up to 2 weeks of their annual leave entitlement under this Order and may direct that the agricultural worker takes one of those 2 weeks of annual leave on days in the same week.

(5) Yn ystod yr ail 6 mis mewn unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol, rhaid i gyflogwr ganiatáu i weithiwr amaethyddol gymryd 2 wythnos o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol o dan y Gorchymyn hwn mewn wythnosau olynol.

(6) At ddibenion yr erthygl hon, mae 1 wythnos o wyliau blynyddol gweithiwr amaethyddol yn cyfateb i nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol fel y'i pennir yn unol ag erthyglau 31 a 32.

**Tâl gwyliau**

**35.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael ei dalu mewn cysylltiad â phob diwrnod o wyliau blynyddol y mae'n ei gymryd yn seiliedig ar gyflog wythnosol arferol y gweithiwr amaethyddol.

(2) Mae swm y tâl gwyliau y mae gan weithiwr amaethyddol hawl iddo o dan baragraff (1) i'w bennu yn unol â rheoliad 16 neu 16A o Reoliadau Amser Gwaith 1998(**1**).

(3) Caniateir i dâl gwyliau gweithwyr amaethyddol sy'n weithwyr oriau afreolaidd neu'n weithwyr rhan o'r flwyddyn gael ei dalu drwy godiad canrannol i dâl y gweithiwr amaethyddol. Canfyddir y ganran sy'n gymwys ar gyfer cyfrifo'r codiad yn unol ag erthygl 32(5).

(4) Yn yr erthygl hon, ystyr "tâl wythnosol arferol" yw—

(a) taliadau, gan gynnwys taliadau comisiwn, sydd â chysylltiad cynhenid â chyflawni tasgau y mae'n ofynnol i weithiwr amaethyddol eu cyflawni o dan delerau ei gontract;

(b) taliadau am statws proffesiynol neu bersonol sy'n ymwneud â hyd gwasanaeth, pa mor uchel yw'r safle neu gymwysterau proffesiynol;

(c) taliadau eraill, fel taliadau goramser, sydd wedi eu talu'n rheolaidd i weithiwr amaethyddol yn y 52 o wythnosau cyn y dyddiad cyfrifo.

(5) During the second 6 months in any annual leave year an employer must permit an agricultural worker to take 2 weeks of the agricultural worker's annual leave entitlement under this Order in consecutive weeks.

(6) For the purpose of this article, 1 week of an agricultural worker's annual leave is equivalent to the number of days worked each week by the agricultural worker as determined in accordance with articles 31 and 32.

**Holiday pay**

**35.**—(1) An agricultural worker is entitled to be remunerated in respect of each day of annual leave taken by them based on the agricultural worker's normal weekly pay.

(2) The amount of holiday pay to which an agricultural worker is entitled under paragraph (1) is to be determined in accordance with regulation 16 or 16A of the Working Time Regulations 1998(**1**).

(3) Agricultural workers who are irregular hours workers or part-year workers may have their holiday pay paid by way of a percentage uplift to the agricultural worker's remuneration. The percentage applicable for calculating the uplift is determined in accordance with article 32(5).

(4) In this article, "normal weekly pay" means—

(a) payments, including commission payments, which are intrinsically linked to the performance of tasks which an agricultural worker is obliged to carry out under the terms of their contract;

(b) payments for professional or personal status relating to length of service, seniority or professional qualifications;

(c) other payments, such as overtime payments, which have been regularly paid to an agricultural worker in the 52 weeks preceding the calculation date.

(**1**) O.S. 1998/1833. Diwygiwyd rheoliad 16 gan O.S. 2014/3322, O.S. 2018/1378 ac O.S. 2023/1426. Mewnosodwyd rheoliad 16A gan Reoliadau Hawliau Cyflogaeth (Diwygio, Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) 2023 (O.S. 2023/1426).

(**1**) S.I. 1998/1833. Regulation 16 was amended by S.I. 2014/3322, S.I. 2018/1378 and S.I. 2023/1426. Regulation 16A was inserted by the Employment Rights (Amendment, Revocation and Transitional Provision) Regulations 2023 (S.I. 2023/1426).

**Gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc**

**36.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo gŵyl gyhoeddus neu ŵyl banc yng Nghymru yn syrthio ar ddiwrnod pan fo'n ofynnol fel arfer i weithiwr amaethyddol weithio o dan naill ai ei gontract neu ei brentisiaeth.

(2) Mae gan weithiwr amaethyddol y mae ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc hawl i gael tâl nad yw'n llai na'r gyfradd goramser a bennir yn erthygl 12.

(3) Mae balans y gwyliau blynyddol sydd wedi eu cronni ar gyfer y flwyddyn gwyliau honno o dan y Gorchymyn hwn gan weithiwr amaethyddol nad yw ei gyflogwr yn ei gwneud yn ofynnol iddo weithio ar yr ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc i gael ei leihau o 1 diwrnod mewn cysylltiad â'r ŵyl gyhoeddus neu'r ŵyl banc nad yw'n ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol weithio arni.

**Public holidays and bank holidays**

**36.**—(1) This article applies where a public holiday or bank holiday in Wales falls on a day when an agricultural worker is normally required to work either under their contract or their apprenticeship.

(2) An agricultural worker required by their employer to work on the public holiday or bank holiday is entitled to be paid not less than the overtime rate specified in article 12.

(3) An agricultural worker who is not required by their employer to work on the public holiday or bank holiday is to have the balance of their accrued annual leave for that leave year under this Order reduced by 1 day in respect of the public holiday or bank holiday on which the agricultural worker is not required to work.

**Taliad yn lle gwyliau blynyddol**

**37.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r amodau ym mharagraff (2), caiff gweithiwr amaethyddol a'i gyflogwr gytuno bod y gweithiwr amaethyddol i gael taliad yn lle diwrnod o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) bod uchafswm nifer y diwrnodau y caiff gweithiwr amaethyddol gael taliad yn lle gwyliau blynyddol ar eu cyfer yn ystod unrhyw flwyddyn gwyliau blynyddol wedi ei ragnodi yn y Tabl yn Atodlen 3,

(b) bod cofnod ysgrifenedig i'w gadw gan y cyflogwr ynglŷn ag unrhyw gytundeb y caiff gweithiwr amaethyddol daliad yn lle diwrnod o wyliau blynyddol am o leiaf 3 blynedd gan gychwyn ar ddiwedd y flwyddyn gwyliau honno,

(c) o dan amgylchiadau pan nad yw'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ar ddiwrnod fel y cytunir yn unol â pharagraff (1), bod y diwrnod hwnnw i barhau'n rhan o hawl gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol, a

(d) bod taliad yn lle gwyliau blynyddol i'w dalu ar gyfradd sy'n cynnwys y gyfradd goramser a bennir yn erthygl 12 yn ogystal â thâl gwyliau a gyfrifir yn unol ag erthygl 35 fel pe bai'r diwrnod y gwneir taliad yn lle gwyliau blynyddol ar ei gyfer yn ddiwrnod y mae'r gweithiwr amaethyddol yn cymryd gwyliau blynyddol.

**Payment in lieu of annual leave**

**37.**—(1) Subject to the conditions in paragraph (2), an agricultural worker and their employer may agree that the agricultural worker is to receive payment in lieu of a day of the agricultural worker's annual leave entitlement.

(2) The conditions referred to in paragraph (1) are—

(a) the maximum number of days for which an agricultural worker may receive a payment in lieu of annual leave during any annual leave year is prescribed in the Table in Schedule 3,

(b) a written record is to be kept by the employer of any agreement that an agricultural worker will receive payment in lieu of a day's annual leave for a minimum of 3 years commencing at the end of that annual leave year,

(c) in circumstances where the agricultural worker does not work on a day as agreed in accordance with paragraph (1), that day is to remain part of the agricultural worker's annual leave entitlement, and

(d) payment in lieu of annual leave is to be paid at a rate which comprises both the overtime rate specified in article 12 and holiday pay calculated in accordance with article 35 as if the day for which a payment in lieu of annual leave is made is a day on which the agricultural worker is taking annual leave.

(3) Nid yw darpariaethau'r erthygl hon yn atal gweithiwr amaethyddol sy'n bodloni'r diffiniad o weithiwr oriau afreolaidd neu weithiwr rhan o'r flwyddyn rhag cael codiad yn ei gyflog mewn cysylltiad â'r cyfan o'i hawl i wyliau yn unol ag erthygl 35(3).

(3) The provisions of this article do not prevent an agricultural worker who meets the definition of an irregular hours worker or a part-year worker from receiving an uplift in their pay in respect of the entirety of their holiday entitlement in accordance with article 35(3).

**Talu tâl gwyliau wrth derfynu cyflogaeth**

**38.**—(1) Pan derfynir cyflogaeth gweithiwr amaethyddol ac nad yw'r gweithiwr amaethyddol wedi cymryd yr holl hawl gwyliau blynyddol sydd wedi cronni iddo ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl yn unol â pharagraff (2) i gael taliad yn lle'r gwyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd.

(2) Mae swm y taliad sydd i'w dalu i'r gweithiwr amaethyddol yn lle pob diwrnod o'i wyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth i'w gyfrifo yn unol ag erthygl 35 fel pe bai dyddiad terfynu'r gyflogaeth yn ddiwrnod cyntaf cyfnod o wyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol.

**Payment of holiday pay on termination of employment**

**38.**—(1) Where an agricultural worker's employment is terminated and the agricultural worker has not taken all of the annual leave entitlement which has accrued to them at the date of termination, the agricultural worker is entitled in accordance with paragraph (2) to be paid in lieu of that accrued but untaken annual leave.

(2) The amount of payment to be made to the agricultural worker in lieu of each day of their accrued but untaken annual leave as at the date of termination is to be calculated in accordance with article 35 as if the date of termination was the first day of a period of the agricultural worker's annual leave.

**Adennill tâl gwyliau**

**39.**—(1) Os terfynir cyflogaeth gweithiwr amaethyddol cyn diwedd y flwyddyn gwyliau blynyddol a bod y gweithiwr amaethyddol wedi cymryd mwy o wyliau blynyddol nag yr oedd ganddo hawl i'w cael o dan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn neu fel arall, mae gan ei gyflogwr hawl i adennill swm y tâl gwyliau a dalwyd i'r gweithiwr amaethyddol mewn cysylltiad â gwyliau blynyddol a gymerwyd uwchlaw ei hawl.

(2) Pan fo gan gyflogwr hawl o dan baragraff (1) i adennill tâl gwyliau oddi ar weithiwr amaethyddol, caiff y cyflogwr wneud hynny drwy ei dynnu oddi ar daliad cyflog olaf y gweithiwr amaethyddol.

**Recovery of holiday pay**

**39.**—(1) If an agricultural worker's employment terminates before the end of the annual leave year and the agricultural worker has taken more annual leave than they were entitled to under the provisions of this Order or otherwise, their employer is entitled to recover the amount of holiday pay which has been paid to the agricultural worker in respect of annual leave taken in excess of their entitlement.

(2) Where under paragraph (1) an employer is entitled to recover holiday pay from an agricultural worker, the employer may do so by means of a deduction from the final payment of wages to the agricultural worker.

**Absenoldeb oherwydd profedigaeth**

**40.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl a thâl profedigaeth amaethyddol yn unol ag erthygl 41 o dan amgylchiadau pan fo'r brofedigaeth yn ymwneud â pherson yng Nghategori A, Categori B neu Gategori C.

(2) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori A yw plentyn.

(3) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori B yw—

(a) rhiant i'r gweithiwr amaethyddol,

(b) priod neu bartner sifil y gweithiwr amaethyddol, neu

**Bereavement leave**

**40.**—(1) An agricultural worker is entitled to paid bereavement leave and agricultural bereavement pay in accordance with article 41 in circumstances where the bereavement relates to a person in Category A, Category B or Category C.

(2) For the purposes of paragraph (1), persons in Category A are a child.

(3) For the purposes of paragraph (1), persons in Category B are—

(a) a parent of the agricultural worker,

(b) the agricultural worker's spouse or civil partner, or

(c) rhywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent yn briod (heb fod yn gyfreithiol briod) neu rywun y mae'r gweithiwr amaethyddol yn byw gydag ef fel pe baent mewn partneriaeth sifil (heb fod mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol).

(4) At ddibenion paragraff (1), personau yng Nghategori C yw—

(a) brawd neu chwaer i'r gweithiwr amaethyddol,

(b) mam-gu/nain neu dad-cu/taid i'r gweithiwr amaethyddol, neu

(c) ŵyr neu wyres i'r gweithiwr amaethyddol.

(5) At ddibenion paragraff (1) mae absenoldeb oherwydd profedigaeth yn ychwanegol at unrhyw hawliau eraill i gael absenoldeb o dan y Gorchymyn hwn.

**Pennu swm absenoldeb oherwydd profedigaeth**

**41.**—(1) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A yw 2 wythnos.

(2) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B yw—

(a) 4 diwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr, neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (3).

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{\text{DWEW} \times 4}{5}$$

(4) Swm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C yw—

(a) 2 diwrnod pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 5 niwrnod neu fwy bob wythnos i'r un cyflogwr, neu

(b) pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai i'r un cyflogwr, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol â pharagraff (5).

(c) someone with whom the agricultural worker lives as if they were spouses (without being legally married) or someone with whom the agricultural worker lives as if they were in a civil partnership (without legally being in a civil partnership).

(4) For the purposes of paragraph (1), persons in Category C are—

(a) a brother or sister of the agricultural worker,

(b) a grandparent of the agricultural worker, or

(c) a grandchild of the agricultural worker.

(5) Bereavement leave for the purposes of paragraph (1) is in addition to any other leave entitlements under this Order.

**Determining the amount of bereavement leave**

**41.**—(1) The amount of bereavement leave to which an agricultural worker is entitled following the death of a person within Category A is 2 weeks.

(2) The amount of bereavement leave to which an agricultural worker is entitled following the death of a person within Category B is—

(a) 4 days where the agricultural worker works their basic hours on 5 days or more each week for the same employer, or

(b) where the agricultural worker works their basic hours on 4 days a week or less for the same employer, the number of days calculated in accordance with paragraph (3).

(3) Subject to paragraph (7), the amount of an agricultural worker's entitlement to bereavement leave following the death of a person within Category B is to be calculated according to the following formula—

$$\frac{\text{DWEW} \times 4}{5}$$

(4) The amount of bereavement leave to which an agricultural worker is entitled following the death of a person in Category C is—

(a) 2 days where the agricultural worker works their basic hours on 5 days or more each week for the same employer, or

(b) where the agricultural worker works their basic hours on 4 days a week or less for the same employer, the number of days calculated in accordance with paragraph (5).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), mae swm hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori C i'w gyfrifo yn ôl y fformwla a ganlyn—

$$\frac{\text{DWEW} \times 2}{5}$$

(6) At ddibenion y fformwla ym mharagraffau (3) a (5), DWEW yw nifer y diwrnodau a weithiwyd bob wythnos gan y gweithiwr amaethyddol wedi ei gyfrifo yn unol ag erthygl 31 neu 32 (fel y bo'n briodol).

(7) Pan fo'r cyfrifiad ym mharagraff (3) neu (5) yn arwain at hawl i gael absenoldeb oherwydd profedigaeth o lai nag 1 diwrnod, mae'r hawl i'w thalgrynnu i fyny i un diwrnod cyfan.

(8) O dan amgylchiadau pan fo mwy nag un gyflogaeth gan weithiwr amaethyddol (boed gyda'r un cyflogwr neu gyda chyflogwyr gwahanol), caniateir cymryd absenoldeb oherwydd profedigaeth â thâl mewn cysylltiad â mwy nag un gyflogaeth ond ni chaiff, mewn cysylltiad ag unrhyw un brofedigaeth, fod yn fwy nag uchafswm yr absenoldeb oherwydd profedigaeth a bennir ar gyfer un gyflogaeth yn yr erthygl hon.

**Tâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol**

**42.**—(1) Mae swm y tâl mewn cysylltiad ag absenoldeb oherwydd profedigaeth yn sgil marwolaeth person yng Nghategori A, am y pedwar diwrnod cyntaf neu, pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn gweithio ei oriau sylfaenol ar 4 diwrnod yr wythnos neu lai, nifer y diwrnodau a gyfrifir yn unol ag erthygl 41(3), i'w bennu yn unol â darpariaethau erthygl 35 fel pe bai diwrnod cyntaf absenoldeb y gweithiwr amaethyddol oherwydd profedigaeth yn ddiwrnod cyntaf gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol hwnnw. Ar gyfer gweddill unrhyw gyfnod o absenoldeb oherwydd profedigaeth, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl i gael swm sy'n cyfateb i dâl absenoldeb profedigaeth rhiant statudol sy'n gymwys o bryd i'w gilydd.

(2) Mae unrhyw dâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol a delir i'r gweithiwr amaethyddol yn unol â pharagraff (1) yn cynnwys unrhyw dâl absenoldeb profedigaeth rhiant statudol y gall y gweithiwr amaethyddol fod â hawl i'w gael ar gyfer yr un cyfnod.

(3) Mae swm y tâl absenoldeb profedigaeth amaethyddol y mae gan weithiwr amaethyddol hawl i'w gael yn sgil marwolaeth person yng Nghategori B neu C i'w bennu yn unol â darpariaethau erthygl 35 fel pe bai diwrnod cyntaf absenoldeb y gweithiwr amaethyddol oherwydd profedigaeth yn ddiwrnod cyntaf gwyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol hwnnw.

(5) Subject to paragraph (7), the amount of an agricultural worker's entitlement to bereavement leave following the death of a person within Category C is to be calculated according to the following formula—

$$\frac{\text{DWEW} \times 2}{5}$$

(6) For the purposes of the formula in paragraphs (3) and (5), DWEW is the number of days worked each week by the agricultural worker calculated in accordance with article 31 or 32 (as appropriate).

(7) Where the calculation in either paragraph (3) or (5) results in an entitlement to bereavement leave of less than 1 day, the entitlement is to be rounded up to one whole day.

(8) In circumstances where an agricultural worker has more than one employment (whether with the same employer or with different employers), paid bereavement leave may be taken in respect of more than one employment but must not exceed, in respect of any one occasion of bereavement, the maximum amount of bereavement leave specified for a single employment in this article.

**Agricultural bereavement leave pay**

**42.**—(1) The amount of pay in respect of bereavement leave following the death of a person in Category A is, for the first four days, or where the agricultural worker works their basic hours on 4 days a week or less, the number of days calculated in accordance with article 41(3), to be determined in accordance with the provisions of article 35 as if the first day of the agricultural worker's bereavement leave was the first day of that agricultural worker's annual leave. For the remainder of any period of bereavement leave the agricultural worker is entitled to an amount equivalent to statutory parental bereavement leave pay applicable from time to time.

(2) Any agricultural bereavement leave pay paid to the agricultural worker in accordance with paragraph (1) is inclusive of any statutory parental bereavement leave pay that the agricultural worker may be entitled to for the same period.

(3) The amount of agricultural bereavement leave pay to which an agricultural worker is entitled to following the death of a person in Category B or C is to be determined in accordance with the provisions in article 35 as if the first day of the agricultural worker's bereavement leave was the first day of that agricultural worker's annual leave.

**Absenoldeb di-dâl**

**43.**—(1) Mae gan weithiwr amaethyddol yr hawl i ofyn am gyfnod o absenoldeb di-dâl gan ei gyflogwr.

(2) Pan fo'r gweithiwr amaethyddol yn bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus neu ddibynyddion o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, absenoldeb rhiant o dan Reoliadau Absenoldeb Mamolaeth a Rhiant etc. 1999(**1**) neu absenoldeb gofalwr o dan Reoliadau Absenoldeb Gofalwr 2024(**2**), rhaid i'r cyflogwr ymateb yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

(3) Mewn achosion eraill, caiff y cyflogwr ddewis pa un ai i gydsynio i gais y gweithiwr amaethyddol am absenoldeb di-dâl.

**Unpaid leave**

**43.**—(1) An agricultural worker has the right to request a period of unpaid leave from their employer.

(2) Where the agricultural worker meets the eligibility requirements for time off for public duties or dependants under the Employment Rights Act 1996, parental leave under the Maternity and Parental Leave etc. Regulations 1999(**1**) or carer's leave under the Carer's Leave Regulations 2024(**2**), the employer must respond in accordance with the relevant legislation.

(3) In other instances, the employer may choose whether to consent to the agricultural worker's request for unpaid leave.

# RHAN 6

## Dirymu a darpariaeth drosiannol

**Dirymu a darpariaeth drosiannol**

**44.**—(1) Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024(**3**) wedi ei ddirymu.

(2) Mae gweithiwr amaethyddol a gyflogir yn weithiwr amaethyddol ar Radd neu'n brentis, ac sy'n ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a ragnodwyd yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 neu unrhyw Orchmynion blaenorol, yn ddarostyngedig, o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn cymryd effaith, i'r telerau a'r amodau a nodir yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn hwn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "Gorchmynion blaenorol" yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024, Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023(**4**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022(**5**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022(**6**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020(**7**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2019(**8**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018(**9**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017(**10**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016(**11**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 a phob gorchymyn a ddirymwyd gan erthygl 70 o'r Gorchymyn hwnnw.

(**1**) O.S. 1999/3312, fel 'i diwygiwyd gan O.S. 2001/4010, 2002/2789, 2006/2014, 2008/1966, 2013/283, 2013/388, 2013/591, 2014/3221 a 2024/264.
(**2**) O.S. 2024/251.
(**3**) O.S. 2024/390 (Cy. 69).
(**4**) O.S. 2023/260 (Cy. 37).
(**5**) O.S. 2022/794 (Cy. 172).
(**6**) O.S. 2022/417 (Cy. 102).
(**7**) O.S. 2020/347 (Cy. 78).
(**8**) O.S. 2019/511 (Cy. 118).
(**9**) O.S. 2018/433 (Cy. 76).
(**10**) O.S. 2017/1058 (Cy. 271).
(**11**) O.S. 2016/107 (Cy. 53).

# PART 6

## Revocation and transitional provision

**Revocation and transitional provision**

**44.**—(1) The Agricultural Wages (Wales) Order 2024(**3**) is revoked.

(2) An agricultural worker employed as an agricultural worker at a Grade or as an apprentice, and subject to the terms and conditions prescribed in the Agricultural Wages (Wales) Order 2024 or any previous Orders is, from the date this Order takes effect, subject to the terms and conditions set out in Parts 2 to 5 of this Order.

(3) In this article "previous Orders" means the Agricultural Wages (Wales) Order 2024, the Agricultural Wages (Wales) Order 2023(**4**), the Agricultural Wages (No. 2) (Wales) Order 2022(**5**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2022(**6**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2020(**7**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2019(**8**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2018(**9**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2017(**10**), the Agricultural Wages (Wales) Order 2016(**11**), the Agricultural Wages (England and Wales) Order 2012 and every order revoked by article 70 of that Order.

(**1**) S.I. 1999/3312, as amended by S.I. 2001/4010, 2002/2789, 2006/2014, 2008/1966, 2013/283, 2013/388, 2013/591, 2014/3221 and 2024/264.
(**2**) S.I. 2024/251.
(**3**) S.I. 2024/390 (W. 69).
(**4**) S.I. 2023/260 (W. 37).
(**5**) S.I. 2022/794 (W. 172).
(**6**) S.I. 2022/417 (W. 102).
(**7**) S.I. 2020/347 (W. 78).
(**8**) S.I. 2019/511 (W. 118).
(**9**) S.I. 2018/433 (W. 76).
(**10**) S.I. 2017/1058 (W. 271).
(**11**) S.I. 2016/107 (W. 53).

*Huw Irranca-Davies*

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
6 Mawrth 2025

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
6 March 2025

# ATODLEN 1 Erthyglau 11, 13 ac 21

## CYFRADDAU TÂL ISAF

**Y Tabl**

| **Gradd** | **Y gyfradd isaf o 1 Ebrill 2025** |
|---|---|
| A1 – Gweithiwr datblygu amaethyddol (16-17 oed) | £7.55 |
| A2 – Gweithiwr datblygu amaethyddol (18-20 oed) | £10.00 |
| A3 – Gweithiwr datblygu amaethyddol (21+ oed) | £12.21 |
| B1 – Gweithiwr amaethyddol (16-17 oed) | £7.55 |
| B2 – Gweithiwr amaethyddol (18-20 oed) | £10.00 |
| B3 – Gweithiwr amaethyddol (21+ oed) | £12.59 |
| C – Gweithiwr amaethyddol uwch | £13.48 |
| D – Uwch-weithiwr amaethyddol | £14.79 |
| E – Rheolwr amaethyddol | £16.23 |
| Prentis Blwyddyn 1 | £7.55 |
| Prentis Blwyddyn 2 a'r tu hwnt (16-17 oed) | £7.55 |
| Prentis Blwyddyn 2 a'r tu hwnt (18-20 oed) | £10.00 |
| Prentis Blwyddyn 2 a'r tu hwnt (21+ oed) | £12.21 |

# ATODLEN 2 Erthyglau 31, 32 a 33

## HAWLIAU GWYLIAU BLYNYDDOL

**Y Tabl**

| **Nifer y diwrnodau a weithir bob wythnos gan weithiwr amaethyddol** | Mwy na 6 | Mwy na 5 ond heb fod yn fwy na 6 | Mwy na 4 ond heb fod yn fwy na 5 | Mwy na 3 ond heb fod yn fwy na 4 | Mwy na 2 ond heb fod yn fwy na 3 | Mwy nag 1 ond heb fod yn fwy na 2 | 1 neu lai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hawliau gwyliau blynyddol (diwrnodau)** | 38 | 35 | 31 | 25 | 20 | 13 | 7.5 |
| **Hawliau gwyliau blynyddol (wythnosau)** | 6.3 | 5.8 | 6.2 | 6.3 | 6.7 | 6.5 | 7.5 |

# ATODLEN 3 Erthygl 37

## TALIAD YN LLE GWYLIAU BLYNYDDOL

**Y Tabl**

| **Uchafswm nifer y diwrnodau gwyliau blynyddol y caniateir taliad yn eu lle** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diwrnodau a weithir bob wythnos** | Mwy na 6 | Mwy na 5 ond heb fod yn fwy na 6 | Mwy na 4 ond heb fod yn fwy na 5 | Mwy na 3 ond heb fod yn fwy na 4 | Mwy na 2 ond heb fod yn fwy na 3 | Mwy nag 1 ond heb fod yn fwy na 2 | 1 neu lai |
| **Uchafswm nifer y diwrnodau gwyliau blynyddol o dan y Gorchymyn hwn y caniateir taliad yn eu lle** | 10 | 7 | 3 | 2.5 | 2.5 | 1.5 | 1.5 |

# ATODLEN 4 Erthyglau 5, 6, 7 ac 8

## CYMWYSTERAU CYFATEBOL Y TU ALLAN I GYMRU

**Tabl A**

| **Cymwysterau cyfatebol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a'r Alban** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Gweriniaeth Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 | Prentisiaeth Ganolradd Lefel 2 | Hyfforddeiaethau Gogledd Iwerddon Lefel 2 | - | Prentisiaeth Fodern Lefel 5 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | Uwch Brentisiaeth Lefel 3 | Prentisiaeth Gogledd Iwerddon Lefel 3 | Prentisiaeth Lefel 5 | Prentisiaeth Fodern Lefel 6, Prentisiaeth Sylfaen Lefel 6 |
| Prentisiaeth Uwch Lefel 4 | Prentisiaeth Uwch Lefel 4 | Prentisiaeth Lefel Uwch Lefel 4 | Prentisiaeth Lefel 6 | Prentisiaeth Fodern Lefel 7 |

**Tabl B**

| **Cymwysterau cyfatebol o dan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (‘FfCE’)** | |
|---|---|
| **Cymru** | **FfCE** |
| Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 | FfCE Lefel 3 |
| Prentisiaeth Lefel 3 | FfCE Lefel 4 |
| Prentisiaeth Uwch Lefel 4 | FfCE Lefel 5 |

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

# SCHEDULE 1 Articles 11, 13 and 21

## MINIMUM RATES OF PAY

**Table**

| **Grade** | **Minimum rate from 1 April 2025** |
|---|---|
| A1 – Agricultural development worker (16-17 years) | £7.55 |
| A2 – Agricultural development worker (18-20 years) | £10.00 |
| A3 – Agricultural development worker (21+ years) | £12.21 |
| B1 – Agricultural worker (16-17 years) | £7.55 |
| B2 – Agricultural worker (18-20 years) | £10.00 |
| B3 – Agricultural worker (21+ years) | £12.59 |
| C – Advanced agricultural worker | £13.48 |
| D – Senior agricultural worker | £14.79 |
| E – Agricultural manager | £16.23 |
| Apprentice Year 1 | £7.55 |
| Apprentice Year 2 and beyond (16-17 years) | £7.55 |
| Apprentice Year 2 and beyond (18-20 years) | £10.00 |
| Apprentice Year 2 and beyond (21+ years) | £12.21 |

# SCHEDULE 2 Articles 31, 32 and 33

## ANNUAL LEAVE ENTITLEMENT

**Table**

| **Number of days worked each week by an agricultural worker** | More than 6 | More than 5 but not more than 6 | More than 4 but not more than 5 | More than 3 but not more than 4 | More than 2 but not more than 3 | More than 1 but not more than 2 | 1 or less |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Annual leave entitlement (days)** | 38 | 35 | 31 | 25 | 20 | 13 | 7.5 |
| **Annual leave entitlement (weeks)** | 6.3 | 5.8 | 6.2 | 6.3 | 6.7 | 6.5 | 7.5 |

# SCHEDULE 3 Article 37

## PAYMENT IN LIEU OF ANNUAL LEAVE

**Table**

| **Maximum number of annual leave days that may be paid in lieu** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Days worked each week** | More than 6 | More than 5 but not more than 6 | More than 4 but not more than 5 | More than 3 but not more than 4 | More than 2 but not more than 3 | More than 1 but not more than 2 | 1 or less |
| **Maximum number of annual leave days under this Order that may be paid in lieu** | 10 | 7 | 3 | 2.5 | 2.5 | 1.5 | 1.5 |

# SCHEDULE 4 Articles 5, 6, 7 and 8

## EQUIVALENT QUALIFICATIONS OUTSIDE WALES

**Table A**

| **Equivalent qualifications in England, Northern Ireland, Republic of Ireland and Scotland** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Wales** | **England** | **Northern Ireland** | **Republic of Ireland** | **Scotland** |
| Level 2 Foundation Apprenticeship | Level 2 Intermediate Apprenticeship | Level 2 Traineeships NI | - | Level 5 Modern Apprenticeship |
| Level 3 Apprenticeship | Level 3 Advanced Apprenticeship | Level 3 Apprenticeship NI | Level 5 Apprenticeship | Level 6 Modern Apprenticeship, Level 6 Foundation Apprenticeship |
| Level 4 Higher Apprenticeship | Level 4 Higher Apprenticeship | Level 4 Higher Level Apprenticeship | Level 6 Apprenticeship | Level 7 Modern Apprenticeship |

**Table B**

| **Equivalent qualifications under the European Qualifications Framework ('EQF')** | |
|---|---|
| **Wales** | **EQF** |
| Level 2 Foundation Apprenticeship | Level 3 EQF |
| Level 3 Apprenticeship | Level 4 EQF |
| Level 4 Higher Apprenticeship | Level 5 EQF |

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

tso
a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-39668-3

9 780348 396683